

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 503 • Hydref 2019 • 50c

Ogwen360 – Gwefan Newydd Sbon i'r Dyffryn!

Mae gwefan newydd ar gyfer Dyffryn Ogwen – Ogwen360 – wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a thros y misoedd nesaf, bydd y wefan yn tyfu a phob math o gynnwys yn cael ei greu ar ei chyfer. Gwefan gymunedol fydd hon, a fydd yn caniatáu i chwi, drigolion y fro, gyfrannu deunydd ati - yr oll sydd raid i chi ei wneud er mwyn gwneud hynny yw cofrestru eich manylion ar '360.cymru'.

Bydd y wefan yn gyfrwng byw – a bywiog! – a fydd yn rhoi cyfleoedd di-rif i bawb gyfrannu a chyfranogi tuag at fenter gyffrous arall yn y fro.

Prosiect gan gwmni 'Golwg' yw Bro360, sydd am greu rhwydwaith o wefannau bro yn ardaloedd Arfon a gogledd Ceredigion. Bydd staff y fenter yn gweithio gydag unigolion ar lawr gwlad dros y ddwy flynedd a hanner nesaf er mwyn creu gwefannau bro wedi eu teilwra ar gyfer ardaloedd penodol.

Meddai Guto Jones, Ysgogydd Bro360: "Ar ôl saith mis prysur iawn, rydym bellach gam yn nes at greu gwasanaeth digidol newydd sbon ar gyfer y cymunedau hyn. Dros y misoedd diwethaf yn Nyffryn Ogwen, rydym wedi dysgu sawl peth – mae llwyth o fudiadau i'w cael yn yr ardal, gan ein galluogi i gynnal gwefan fywiog yn llawn straeon lleol; mae angen gwasanaeth Cymraeg defnyddiol a diddorol all dynnu'r gymuned ynghyd; ac mae digonedd o botensial i ddefnyddio gwahanol arfau digidol i wneud gwahaniaeth i'r fro. Un peth sydd yn amlwg yw bod mwy na digon o fwrwm yn yr ardal hon er mwyn gallu creu a chynnal gwefan fro lwyddiannus.

"Wrth sgwrsio ag unigolion a mudiadau yn y fro, mae'r awydd i greu calendr digidol

Cyfyngau cymdeithasol:

Facebook: Bro360

Twitter: Bro_360

Instagram: bro360_

Snapchat: guto_bro360

wedi codi sawl tro.

Gall yr arf yma helpu gwahanol gymdeithasau a chlybiau'r gymuned i gydweithio, i gynllunio ac i gefnogi ei gilydd.


"Pa bethau eraill yr hoffech

chi eu creu yn rhan o'r gwasanaeth

Cymraeg newydd yma? Bydd eich gwasanaeth lleol yn cael ei ddatblygu gyda thrigolion a chymdeithasau Dyffryn Ogwen dros y misoedd nesaf, felly dewch i fynegi eich barn a chyfrannu eich syniadau, er mwyn gwneud Ogwen360 yn adnodd unigryw a gwerthfawr!"

Bydd sesiynau yn cael eu trefnu er mwyn trafod syniadau dros yr wythnosau nesaf. Dilynwch Bro360 ar y cyfyngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth, neu cysylltwch â Guto ar:

gutojones@golwg.com neu **07827016672**



Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

(Dwy sesiwn o fwynhad pur!)

Nos Wener, 15 Tachwedd 2019

6.30 yh

yn Neuadd Ogwen

Seremoni'r Orsedd,

Cystadlaethau'r Corau

*Unawdau Lleisiol ac Offerynnol
a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd*

Sadwrn, 16 Tachwedd 2019

10.00 yb

yn Ysgol Dyffryn Ogwen

*Gwledd o Gystadlaethau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns, Celf a Chrefft*

Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Rhodri Llŷr Evans.

Golygydd mis Tachwedd fydd
Dewi A. Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd, LL57 3DT.
01248 602440
dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 30 Hydref
os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu
nos Iau, 14 Tachwedd,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

DALIER SYLW: NID OES
GWARANT Y BYDD UNRHYW
DDEUNYDD FYDD YN
CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y Lolfa

Neges Bwysig
i'r DarllenwyrApêl Cyfarfod Blynnyddol Llais Ogwan
2019

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol papur bro
Llais Ogwan yng Nghanolfan Cefnfaes
nos Iau, Tachwedd 7fed am 7.30yh. Mae
croeso i unrhyw un fynychu'r cyfarfod i
glywed am weithgareddau'r papur tros
y flwyddyn ddiwethaf a'r ffordd y mae'n
cael ei gynnal. Dymuna'r pwyllgor apelio
am gefnogaeth ein darllenwyr, a byddem
yn falch iawn o'ch gweld yn mynychu'r
Cyfarfod Blynnyddol. Mae'n bwysig bod
gwirfoddolwyr newydd yn dod ymlaen
i gynnig eu cyfraniad i helpu'r Pwyllgor
a'r Panel Golygyddol gyda'r gwaith o
gynnal ein papur bro i'r dyfodol. Mae
angen cynnal ymgyrch i hybu gwerthiant
y papur mewn rhai ardaloedd o'r dyffryn
erbyn hyn a byddem yn croesawu unrhyw
gymorth gan wirfoddolwyr newydd.

Os oes unrhyw un o'n darllenwyr yn
awyddus i helpu gydag unrhyw agwedd
o waith y papur, mae croeso i chi gysylltu
gydag unrhyw un o'r swyddogion neu'r
Ysgrifennydd ar 01248 601415.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â
phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Dyddiadur y Dyffryn

Hydref

- 19 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
21 Te Bach. Ysgoldy Carmel, Llanllechid.
2.30 – 4.00.
23 Cyfarfod Chwarter Annibynwyr
Gogledd Arfon. Bethlehem Talybont
am 7.00
26 Bore Coffi Eglwys St. Cedol Pentir.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
27 Diwrnod yr Afal. Egin Ogwen yn
gwasgu afalau. Llys Dafydd. 11.00 –
4.00.
29 Darlith Saesneg gan Richard
Ninnes, Cyf. Naturiol Cym. Neuadd
Rhiwlas.7.00
29/30 Theatr Bara Caws. Llew Llaw
Gyffes. Galeri, Caernarfon am 7.30.

Tachwedd

- 02 Bore Coffi Clwb Camera Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12. 00.
04 Merched y Wawr Tregarth. "Dathlu'r
Aur". Clwb Rygbi Bethesda am 7.30.
07 Cyfarfod Blynnyddol Llais Ogwan.
Cefnfaes am 7.30.
07 Sefydliad y Merched Carneddi.
Cyfarfod Blynnyddol. Cefnfaes am 7.00.
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00.
09 Bore Coffi Gofal Dementia. Festri
Capel Jerusalem. 10.00 – 12.00.
11 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
gydag Alun Roberts. Festri Jerusalem
am 7.00
14 Cymdeithas Jerusalem. Mr. Bob
Morris yn "Chwilio am Madog". Festri
am 7.00.
14 Noson Gasglu a Dosbarthu'r Llais.
Cefnfaes am 6.45.
15 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen am 6.00 yn brydlon.
16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am
10.00.
16 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
20 Marchnad Nadolig Ogwen. Neuadd
Ogwen. 5.00 – 8.00.
23 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub
Barbwr Ogwen, Bethesda

Bangor

Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon Siop Richards

Porthaethwy Awen Menai

Rhiwlas Garej Beran

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Hydref

- £30 (48) Cemlyn Jones, Erw Las, Bethesda.
- £20 (92) Menai Jones, Tregarth.
- £10 (30) Alan Puw, Cefn y Bryn, Bethesda.
- £5 (169) Rita Lewis, Pantglas, Bethesda.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

Ysgol Tregarth

Wythnos Iechyd a Lles

Yn ystod wythnos olaf mis Medi, bu'r ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i ddysgu am bwysigrwydd iechyd a lles. Bu'r plant yn dysgu ynghylch sut i fyw bywyd iach, gan edrych ar ddilyn diet iach, cael meddwl iach, ymarfer corff a llawer mwy.

Cwpan y Byd

Dydd Llun Medi 23 daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo eu crysau coch i gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd. Codwyd y to yn neuadd yr ysgol wrth ganu'r anthem Gymraeg a phawb yn falch o'u Cymreictod. Diolch o galon i Anti Shirley am baratoi cinio arbennig.

Rhoddion i'r Llais

- £4.50 Di-enw, Llandygai.
- £5.00 Helen Williams, Penrhiw, Mynydd Llandygai.

Diolch yn fawr

Modurdy Central

M.O.T. ar gael Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Siarad.

Siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gyda'i gilydd
Bringing Welsh speakers and learners together

Cynllun Siarad 2019 – 2020

Oes ganddoch chi awran neu ddwy y mis i'w sbario i helpu dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg?

Pam na wnewch chi ymuno â'r cynllun Siarad? Nod y cynllun ydy darparu cyfleoedd siarad i ddysgwyr fagu hyder a rhuglder ac i gynorthwyo dysgwyr i gymhathu yn y gymuned leol neu mewn cymdeithasau lleol.

Ella byddwch chi'n cael profiad tebyg iawn i'r siaradwr yma...

“Mae pethau yn mynd yn dda iawn gyda'r cynllun [...] wedi cyfarfod dair gwaith yn barod, fel arfer mewn caffi gwahanol i gael cinio bob ryw bythefnos, rydym i fod i gyfarfod dydd Mercher nesa. Rydym yn mwynhau cwmni'n gilydd ac yn sgwrsio'n ddi-baid nes y bydd hi wedi blino'n lan! [...] Rydym eisoes wedi trafod mynd efo'n gilydd am y diwrnod i'r Eisteddfod Genedlaethol, ac mae'n awyddus iawn i wneud hynny. Rwyf yn rhagweld y byddwn yn parhau yn ffrindiau da wedi i'r cynllun ddod i ben.”

Be' sy'n ddisgwyliedig?

Gofynnir am ymrwymiad o 10 awr gan bob pâr – y dysgwyr a'r siaradwyr. Gallwch ddefnyddio'r amser i gyfarfod dros banad neu ginio. Croesawir hefyd defnyddio'r 10 awr i fynychu digwyddiadau ar y cyd e.e. mynychu perfformiad drama, cyfarfodydd grwpiau cymdeithasol neu mynd i wyllo chwaraeon.

Be' nesa'?

Os ydych chi'n awyddus i ymuno'n y cynllun, cysylltwch ag Eluned Croydon e.croydon@bangor.ac.uk / 01248 383 928. Yna, mi fyddwn ni'n gwneud trefniadau i'ch paru ac yn gwneud pob ymdrech i'ch paru â dysgwr o'r un ardal/oedran/rhyw a diddordebau.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y cynllun drwy ymweld â'r wefan hon:
<https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/>
Helpwch ni i greu miliwn o siaradwyr!



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Priodas

Llongyfarchiadau i Helen Buckley a Gwyn Roberts a briodwyd ar Fedi 21. Cynhaliwyd seremoni'r briodas yn Llandudno gyda dathliadau wedyn yng Ngharreg Brân, Llanfairpwll. Mae Helen yn ferch i Aelwen a'r diweddar Michael Buckley, Erw Las.

Triniaeth

Dymunwn yn dda ac adferiad buan i Dilwyn Owen, Erw Las, wedi iddo dderbyn triniaeth y mis diwethaf.

Lwyddiant mewn busnes

Llongyfarchiadau i Ashley a Catherine, Maes Coetmor, ar eu llwyddiant yn cyrraedd y rhestr fer mewn cyfarfod arbennig ar nos Sadwrn, 28 Medi.

Cyfarfod i ddyfarnu Gwobrau i Fusnesau oedd hwn, ac fe'i cynhaliwyd yn Neuadd Pritchard Jones, Prifysgol Bangor.

Mae Ashley a Catherine yn rhedeg siop gŵg ar y Stryd Fawr ym Mangor, ac mae'n glod mawr iddynt eu bod wedi eu rhoi ar y rhestr fer yn adran y Busnesau Bychain Newydd. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol!

Diolch

Dymuna Cledwyn Thomas, 39 Abercaseg, ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 75 oed ar 31 Awst. Diolch!

Dymuna Brenda Hughes, Arafa Don, ddiolch i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am eu gofal caredig tra bu yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth, ac wedi iddi ddod adre. Diolch am y cardiau a'r rhoddion caredig.

Penblwyddi Arbennig

Ar 6 Hydref, fe ddathlodd Gareth Hughes, Arafa Don, ei benblwydd yn 60 mlwydd oed.

Llongyfarchiadau!

Llongyfarchiadau i Osian Hughes, Tan y Gaer, a ddathlodd ei benblwydd yn 18 mlwydd oed ar 28 Medi.

Penblwydd hapus i Mrs. Mair Williams, Plas Ogwen, a ddathlodd ei phenblwydd yn 99 mlwydd oed ar 18 Medi. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Cyfarchion i Fiona Hughes, Neuadd Wen, sy'n dathlu penblwydd arbennig y mis yma. Hwyl ar y dathlu Fiona.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef:-

Mrs. Noreen Jones, Adwy'r Nant; Parchedig John Owen, Plas Ogwen; Mr. Colin Williams, Adwy'r Nant.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Colli un o'r Sefydlywyr

Ar 5 Awst, wedi salwch blin, bu farw Mrs Dorothy Proudley Williams, o Bentref Llandygai, yn 93 mlwydd oed. Roedd Dorothy wedi bod yn aelod ffyddlon iawn o'r pwyllgor, o'r cyfarfod cyntaf pan sefydlwyd y Cyfeillion ym mis Awst 1969. Bu'n gwasanaethu fel ysgrifennydd am sawl blwyddyn, a bu'n gadeirydd hyd y flwyddyn 2004. Rydym, fel aelodau'r pwyllgor, yn anfon ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Dathlu'r 50

Ar 29 Awst eleni, roedd Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn dathlu 50 mlynedd o weithgarwch dyngarol. Fel rhan o'r dathlu cafwyd "Paned a Chacen" yng nghyntedd yr ysbyty brynhawn Sadwrn, 14 Medi. Prynhawn ardderchog a phawb wedi mwynhau'r achlysur yn fawr. Diolch i'r Bwrdd Iechyd am gael defnydd o'r cyntedd, ac i staff y gegin am y te a'r coffi, a diolch i Nia Williams am y trefniadau.

Sioe Ffasiwn

Ar nos Iau, 26 Medi, cynhaliwyd Sioe Ffasiwn a lluniaeth yn Pringle's Llanfairpwll. Noson lwyddiannus iawn, ac mae ein diolch yn fawr i reolwr y caffi, i reolwr Pringle's ac i'r staff am y croeso a'r cymorth gyda'r noson. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn hefyd i Jean a



Aelodau pwyllgor Cyfeillion Ysbyty Gwynedd ar noson eu swper dathlu'r 50 oed yng Ngharreg Brân, Llanfairpwll, ar 20 Medi.



Mrs. Mair Griffith, Llywydd y Cyfeillion, a Mr. Joe Hughes, Cadeirydd, wedi cael eu dwylo ar y gacen penblwydd. Tybed gafodd unrhyw aelod arall o'r pwyllgor damaid ohoni??

Margaret am drefnu'r cyfan. Gwnaed elw o £1,800.00. Diolch i bawb a ddaeth i'r Sioe i'n cefnogi, ac eraill am eu rhoddion hael!

Noson Gosod Blodau

Ar nos Wener, 25 Hydref, am 7.00yh yn y Ganolfan Ôl-raddedig Ysbyty Gwynedd, cynhelir noson o Arddangosiad Gosod Blodau gan Dawn Weaver (Enillydd sawl medal aur yn Chelsea). Tocyn £7.00 (yn cynnwys lluniaeth ysgafn) ar gael gan Glenys Morgan, Wendy Jones, Dewi Morgan a Joe Hughes.

Cydymdeimlo

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar, ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt i gyd:

Mrs. Barbara Williams a'r teulu, Rhos Douglas. Colli brawd yng nghyfraith ac ewythr ym Mangor.

Mrs. Eleri Evans a'r teulu, Tan y Gaer. Colli ei modryb ym Mangor.

Mrs. Jean Williams a'r teulu, Dolgoch. Colli ei chwaer, Mrs. Lucy Griffith, Bangor, ar 22 Medi.

Mr. Derek Rowlands a'r teulu, Stryd Fawr; Mr. a Mrs. Richard Rowlands, a'r teulu, Erw Las; Mrs. Carl Ford a'r teulu, Tan y Gaer. Wedi colli eu chwaer, Mrs. Lena Hughes, Rachub.

Mrs. Rita Evans a'r teulu, Erw Las. Mr. a Mrs. Arfon Evans a'r teulu, Erw Las.

Marw

Mr. Arthur Ernest Prince

Ar 16 Medi, yng nghartref Cerrig yr Afon, bu farw Mr. Arthur Ernest Prince yn 89 mlwydd oed. Priod Mrs. Gwenda Prince, tad Michael, llysdad, taid a hen daid. Bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 26 Medi. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Mrs. Megan Jones

Yng nghartref Willow Hall, Caernarfon, ar 14 Medi, bu farw Mrs. Megan Jones, gynt o Ffordd Garneddwen, yn 97 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. Deiniol Jones, a mam hoffus ac annwyl i Elsworth, Jill ac Ann, a mam yng nghyfraith, nain a hen nain annwyl. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, ddydd Gwener, 4 Hydref, Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Mrs. Lena Hughes

Yn Ysbyty Gwynedd ar 22 Medi, bu farw Mrs. Lena Hughes, gynt o Glanogwen, yn 79 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Raymond Hughes, mam garedig i Bryn, Hefin, Carys, Gareth, Tecwyn ac Elaine. Nain a hen nain hoffus, a chwaer i Derek, Richard, Carol a Gillian.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng nghapel

Carmel, Llanllechid ac Amlosgfa Bangor, ddydd Iau, 3 Hydref. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard, a’r Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mercher, 25 Medi, aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Lerpwl. Cafwyd diwrnod sych a braf, a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd am y trefniadau gan y cadeirydd, Mrs. Rhiannon Efans, ac fe atgoffodd yr aelodau am y Bore Coffi yng Nghefnfaes ddydd Sadwrn, 16 Tachwedd. Gwibdaith nesaf Gorffwysfan fydd i Farchnad Bury. Cychwyn am 8.30yb ger y Gofeb, ar ddydd Mercher, 20 Tachwedd. Enwau ar y rhestr yn y Gorffwysfan.

Yr Eglwys Unedig

Ni gyhoeddwyd deunydd ar gyfer Yr Eglwys Unedig yn rhifyn Medi, felly dyma ei ailgyhoeddi yn y rhifyn hwn, yn ogystal â chyhoeddi deunydd mis Hydref – gol.

Oedfaon

Cynhaliwyd oedfaon bendithiol iawn drwy gydol Gorffennaf ac Awst, ac eithrio y Sul cyntaf yn Awst, pryd y cafwyd cyfle i fynychu’r Gwasanaeth a’r Gymanfa yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst. Mae ein diolch yn fawr i’r rhai a fu’n ein gwasanaethu, ac ar yr un pryd, anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn methu bod gyda ni oherwydd gwaeledd neu lesgedd.

Bedydd

Pleser o’r mwyaf oedd cael cynnal gwasanaeth arbennig ar fore’r Sul olaf yn Awst, pryd y bedyddiwyd Ava, merch fach Paula a Jason, wyres Gwyn, a gor-wyres Medi Williams, Maes Coetmor. Gwasanaethwyd gan Y Parchedig Mererid Mair, a hynny mewn ffordd hwyliog a chartrefol dros ben - diolch o galon iddi. Cyflwynwyd Beibl y Plant i Ava i nodi’r achlysur hapus hwn.

Profedigaeth

Trist yw gorfod cofnodi i ni golli aelod yn ystod mis Awst, sef Mr Dewi Hughes, 23, Glanffrydlas. Bu Dewi’n ffyddlon iawn i’r Achos yn Jerusalem hyd nes i afiechyd ei lethu. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu oll.

Gardd y Capel

Hoffem ddiolch i’r aelodau a ffrindiau sydd yn gofalu bod yr ardd yn dwt – braf yw gweld y llwyni’n ffynnu, ac yn cael llonydd!

Llongyfarchiadau

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd a chysylltiad â’n haelodau yn dilyn

canlyniadau arholiadau yn ystod yr haf, gan obeithio y daw llwyddiant pellach iddynt yn y dyfodol.

Dyma ddeunydd mis Hydref – gol.

Oedfaon

Ymysg yr oedfaon a gynhaliwyd gennym ym mis Medi, fe drefnwyd Sul Teuluol, er mwyn croesawu’r plant a’u rhieni yn ôl wedi gwyliau’r haf, a braf oedd gweld nifer sylweddol wedi yngynnull. Ar ddiwedd y gwasanaeth yn y capel, aeth pawb – yn oedolion a phlant – i’r festri, a rhannu’n grwpiau ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â’r thema, ‘sef ‘Ysgol’. Pleser oedd gweld, a chlywed, y fath fwrwm o amgylch y byrddau, a phawb yn dod i adnabod ei gilydd yn well! Diolch i Lowri am baratoi’r cyfan, a da oedd y baned ar y diwedd hefyd!

Cofion

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sydd yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon, oherwydd anhwylder neu lesgedd. Rydym yn meddwl yn arbennig y tro hwn am ein cyn-weinidog, y Parchedig John Owen, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty, ac yn dymuno pob bendith iddo.

Tymor Newydd

Wedi seibiant dros fis Awst, rydym wedi ailgydio yn ein gweithgareddau arferol, ac yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o agor ein drysau led y pen. Cynhelir yr oedfaon bob Sul am 10 a 5, oni nodir yn wahanol. Cofiwch am y baned ar fore Iau, rhwng 10 a 12, mae croeso cynnes iawn yn eich disgwyl. Mae Côr y Dyffryn hefyd wedi ailddechrau ymarfer bob nos Sul am 6.15 yn y festri, ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol a gynhelir nos Sul, Rhagfyr 15, am 7 o’r gloch yn y capel. Hoffem weld mwy yn dod i berthyn i’r Côr – cofiwch bod canu yn hynod o dda i’r iechyd!

Pwyllgor Blaenoriaid

Yn dilyn ymddeoliad Jean o’r gadair, penodwyd Ceri i gadw trefn arnom o hyn ymlaen. Diolchwyd yn gynnes iawn i Jean am ei harweiniad doeth a hynod wybodus dros y blynyddoedd, a chyflwynwyd rhodd fechan iddi fel arwydd o’n gwerthfawrogiad.

Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn y festri tuag at elusen Macmillan, a gwnaethpwyd elw anrhydeddus iawn o dros £500. Diolch o galon i Minnie a Ceri am drefnu’r cyfan, ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

Y Banc Bwyd

Hyfryd oedd cael mynd â llwyth o fwyd i’r Banc Bwyd yng Nghaernarfon, a diolch i chwi oll am eich haelioni. Rydym yn gobeithio cael llwyth arall yn barod i’w ddanfoni ar ddiwedd Hydref, yn dilyn ein gwasanaethau Diolchgarweh. Mae’r gwirfoddolwyr yng



Yr Eglwys Unedig - Yr Hysbysfwrdd

Fe sylwch fod yr hysbysfwrdd bellach wedi’i atgyweirio, a bod gwybodaeth am y gwasanaethau ynddo. Yn ogystal â hyn, rydym wedi rhoi ambell lun o’r tu mewn i’r capel arno, er mwyn i bawb weld mor hardd ydyw. Tynnwyd y lluniau gan Thomas Bassler, sef ffotograffydd proffesiynol o’r Almaen sydd yn ymddiddori mewn capeli ac eglwysi led-led Ewrop. Bu’n ymweld â Jerusalem, gan dynnu nifer o luniau arbennig, ac yn garedig iawn mae wedi rhoi caniatâd i ni eu harddangos. Byddwn yn newid y lluniau o dro i dro, er mwyn rhoi cyfle i chwi weld y cwbl. Diolch yn fawr i Thomas – a chyda llaw, mae wedi dysgu siarad Cymraeg yn hollol rugl, ac mae’n bleser ei weld a’i glywed yn defnyddio’r iaith wrth gyfathrebu â ni. Dyma enghraifft o un o’i luniau.

Nghaernarfon yn awyddus i dderbyn deunydd glendid y corff (sebon, pâst dannedd, shampŵ ac ati) yn ogystal â bwydydd.

Cyhoeddiadau’r Sul

- Hydref 20: Y Parchedig W H Pritchard (10 a 5)
- Hydref 27: Trefniant Mewnol (10)
- Y Parchedig Huw Pritchard (5)
- Tachwedd 3: Y Parchedig D Rees Roberts (10 a 5)
- Tachwedd 10: Y Parchedig Alan Spencer (10 a 5)
- Tachwedd 17: Mr Eryl Wyn Davies (10)
- Trefniant Mewnol (5)

Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau
Pob bore Sul:
Cymun Bendigaïd Corawl am 11yb
Nid oes Cymun am 8yb dros y gaeaf.
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i’r holl wasanaethau. Anfonwn ein cofion fel arfer at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i’w cartrefi.

Ffarwelio

Y mis hwn, bydd eglwysi Bro Ogwen yn ffarwelio â'r ddau offeiriad sydd wedi bod yn gwasanaethu drosom am 10 mlynedd bellach, sef y Barch Christina McCrae a'r Parch John Mathews.

Mae Christina yn mynd yn ol 'adref' i'r Iwerddon i fyw yn nes at y teulu, a bydd colled fawr ar ei hôl yn eglwys Glanogwen a'r Fro, lle mae wedi gwneud cryn argraff twy ei hymweliadau â'r cartrefi ac i Plas Ogwen, ac yn arbennig trwy ddysgu Cymraeg. Diolchwn yn gynnes iawn iddi am ei gwasanaeth, gan ddymuno hir oes ac iechyd iddi yn ei hymddeoliad.

Mae John a'i wraig Sue yn mynd tipyn ymhellach, gan eu bod yn ymfudo i Seland Newydd i ofalu am blwyf yn Ynys y Gogledd. Mae'n gam mawr a chyffrous iawn, a dymunwn pob llwyddiant iddynt yn eu menter a'u cartref newydd. Diolchwn yn fawr iddynt hwythau am eu gwaith ym Mro Ogwen.

Mae gwasanaeth olaf Christina yn eglwys Glanogwen Ddydd Sul, Hydref 20fed, am 11.00, gyda chyfarfod ffarwelio yn eglwys Sant Cedol, Pentir am 6 yr hwyr. Cynhelir gwasanaeth ffarwelio John yn eglwys Sant Tegai fore Sul, Hydref 27, am 11 y.b.

Sylwer bod sawl neges o ewyllys da wedi eu derbyn ynghylch Y Parch. Matthews a'r Barch. Christina McCrae. I'r perwyl hwnnw, derbyniwyd deunydd gan Eglwys St. Ann a St. Mair; Eglwys Sant Tegai, Llandygai; Eglwys St. Cedol, Pentir; Eglwys St. Cross, Talybont ac Eglwys y Santes Fair, oll yn dymuno'r gorau i'r ddau ac yn diolch iddynt am eu gwasanaeth – gol.

Cynigir

GWERSI PIANO

gan

Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD,

Cysyllter â: Bethesda **602901**

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.

Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Nyth y Gân

Hydref yn Oedi

Cludo'r stên i'w rhieni y mae'r ferch
Drwy'r llannerch a'r llwyni;
Hydref â'i goed yn oedi
Yn y llain uwchben y lli.



'Lingering Autumn', paentiad gan John Millais

Colled i'r Plant

Hir ddyddiau mor rhydd oeddynt, a'r goedwig
Yn gaer gadarn iddynt;
Tristwch a ddaethai trostynt
Wrth i'r gwŷr ei thorri gynt.

Creigiwr

Curodd yr hen graig heriol, a honno
Â hanes rhyfeddol;
Â'i nerth ymlaen ac yn ôl
Craff ei daro crefftwrol.

Golygfeydd

O diroedd yr uchelderau gwelwn
Fod Gwalia'n llawn perlau;
Mae fel agor trysorau
Yma i ni eu mwynhau.

Balchder y Garddwr

Difyr o hyd fu'r hadu, a'r agor
I'r egin gael tyfu,
A gwyllo cnwd y gwely
O flodau a llysiau'n llu.

Dafydd Morris

Bleddyn

(fy naeargi)
Y blaidd sy'n achau Bleddyn,
Ef yn gi sy'n fain a gwyn.
Henddyn yw'r anian ynddo,
A di-wg ei olwg o.
Yn ei edrych mae'n adrodd
Ei fyw o hyd wrth ei fodd.
Mae'i enaid yn ei neidio
Ac annwyl yw ei hwyl o.
Ei fol mor grwn â rholyn,
A'i ddawn yw ymbil ar ddyn.
Yn hoffus daw â'i bawen
Yn gall a thaer lyfu gên;
Ei dafod fel gwasgod goch,
A'i hoen yn rhan ohonoch.
Hyder di-bryder a dof
A ddengys wefr ddiangof.
Agos yw trem ei lygaid
A'i wedd byw yma'r ddi-baid.

Llwynog

Mor gyfrwys a dwys ei daith o'r goedlan
I'r gadlas a'i anrhaith,
A thrwy ei frath ar iâr fraith
I'w wâl daw â saig eilwaith.



Glöyn Byw

Y dawnus ei adenydd, a llygaid
Sy'n lliwgar, ysblennydd;
Y glain yn nhwf y glennydd
Â hoen dawns yng ngwres y dydd

Mwyar Duon

Mirain yw cnwd miaren, yn dynes
Yn ein denu'n llawen;
Cymaint o dlysau cymen,
Hoff wyf o ffrwythau ei phen.

Goronwy Wyn Owen

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel

1 Ffordd Garneddwen

Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

gair neu ddau

John Pritchard

DIOLCH BOB DYDD

Perthyn i un diwrnod, a hwnnw’n ddydd Llun, oedd yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn ardaloedd y chwareli ers talwm. A chymaint o bwys a roddid ar yr un diwrnod hwnnw nes bod rhai’n ei alw’n ‘Ddydd Llun Pawb’ gan fod trwch y boblogaeth yn gwneud ymdrech i fynychu un neu ragor o’r oedfaon a gynhelid ym mhob capel bron. Nid dyna’r drefn ym mhobman wrth gwrs, ac mewn ardaloedd mwy gwledig ac amaethyddol byddai’r Diolchgarwch yn cael ei drefnu ar adegau cyfleus yn nhymor y cynhaeaf, gydag amryw o gapeli yn cynnal yr Ŵyl wedi i’r holl aelodau orffen y gwaith o feddi’r cynhaeaf.

Mewn rhai ardaloedd, byddai’r Diolchgarwch yn gyfle i eglwysi wahodd gweinidog newydd i’r ardal i ymweld â hwy. Mae gen i gof am fwy nag un o’m ffrindiau yn cynnal oedfaon Diolchgarwch mewn gwahanol gapeli bob nos dros ddwy neu dair wythnos wedi iddynt symud i ardal newydd. Chefais i erioed mo hynny a bod yn onest gan mai cadw Dydd Llun Diolchgarwch oedd yr arferiad ym Mhen Llŷn hefyd pan euthum yno gyntaf ym weinidog newydd. Ond eleni, bydd pum

wythnos cyn fy Niolchgarwch cyntaf ac olaf, ar ddiwedd Medi a diwedd Hydref.

Ond, boed yr Ŵyl Ddiolchgarwch ar gyfer un diwrnod penodol neu gyfnod o fis neu fwy, y gwir yw mai rhywbeth ar gyfer pob dydd ydyw. Oherwydd bob dydd y derbyniwn ddaioni Duw; bob dydd y daw ei fendithion; bob dydd y mae Ef yn ein cynnal ac yn darparu’n hael ar ein cyfer. Bob dydd y dylem gydnabod y ddarpariaeth honno; bob dydd y medrwn ein hatgoffa ein hunain am roddion da Duw; bob dydd y dylem ddiolch i Dduw am fendithion y dydd ynghyd â’r holl fendithion a gawsom erioed.

I raddau helaeth iawn, peidiodd Dydd Llun Diolchgarwch â bod. Bron nad aeth Dydd Llun Pawb yn Ddydd Llun Neb. Dechreuodd yr eglwysi gynnal eu Diolchgarwch ar y Sul, ac erbyn hyn mae hyd yn oed hwnnw wedi ei anghofio mewn aml i fan. Ond gŵyl neu beidio, daliwn i ddiolch. Beth bynnag a ddaw o drefniadau ein capeli a’n heglwysi, gallwn ni ein hunain barhau i roi diolch i Dduw am ei gynhaliath feunyddiol.

Ac felly yn nhymor y Diolchgarwch, ewch ati o’r newydd i gyfrif eich bendithion. Ystyriwch y cyfan a gawsoch gan Dduw heddiw a thros y dyddiau diwethaf. Diolchwch am y cyfan, a chanmolwch Dduw amdanynt. A byddwch benderfynol o ddangos eich diolchgarwch nid mewn geiriau’n unig ond mewn bywyd o wasanaeth ufudd i’r Un sy’n rhoi cymaint i chi.

Nant Ffrancon

Llongyfarchiadau mawr i Beca Jackson, Braich Tŷ Du a enillodd Gwpan Cneifwraig y Flwyddyn a Thlws Cneifio Gwelleifau ar ddiwedd ei chwrs yn Ngholeg Glynllifon eleni.

Dymunwn bob lwc i Beca ym Mhrifysgol Aberystwyth lle bydd yn astudio Amaeth a Busnes.



EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI’R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned. Bob bore **dydd Iau** rhwng 10.00 o’r gloch a hanner dydd.

Cynnig Gofal Plant Cymru

Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi’u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy’n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192
Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Peter a Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed ar ddod yn daid a nain unwaith eto, a phob dymuniad da i’w merch Catrin a’i phriod Huw ar enedigaeth Llio Myfanwy ar Medi 23. Mae Guto wrth ei fodd efo’i chwaer fach newydd.

Cydymdeimlad
Yn ystod Mis Medi daeth profedigaeth i ran Bethan Wyn a Dylan Roberts, Ffordd Tanrhiw. Bu farw tad Bethan a’i brawd, sef Wyn Griffiths. Cydymdeimlwn gyda’r holl deulu.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Rhian a Keith Williams, 2 Ffrwd Galed, ar enedigaeth mab bychan ar Orffennaf 25, sef Ifan Llŷr. Brawd bach i Harri Gwilym. Dymunwn wellhad i Keith ar ôl llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth
Bydd y gangen yn dathlu pumdeg mlynedd o fodolaeth yn y pentref ym Mis Tachwedd. Nos Lun, Tachwedd 4, byddant yn dathlu’r aur yng Nghlwb Rygbi, Bethesda. Mae croeso cynnes iawn i gyn-aelodau ac aelodau presennol i ymuno yn y dathlu. Cysylltwch gyda’r llywydd, Myfanwy Harper (362139) neu’r ysgrifennydd Alison Carden (600946).

Yn yr ysbyty
Ni fu Wynne Roberts yn rhy dda ei iechyd yn ddiweddar wedi gwaeledd sydyn a chyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio eich bod yn cryfhau erbyn hyn, Wynne.
Da ydi cael croesawu ein horganydd, Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, yn ôl wedi llawdriniaeth ar y glun yn Ysbyty Gobowen. Pythefnos gawson ni yn Shiloh heb Wyn ac mae wedi dychwelyd yn llai poenus ei fyd,

erbyn hyn. Diolch i Robin Jones, Bethel, am lenwi’r bwlch tra roedd Wyn yn gwella.

Capel Shiloh, Tregarth
Gwasanaethau yn cychwyn am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol
Hydref 20: Gwynfor Williams, Caernarfon
Hydref 27: Richard O Jones, Gaerwen
Tachwedd 3: Richard Gillion
Tachwedd 10: Philip Barnett, Swydd Efrog
Tachwedd 17: Gwynfor Williams, Caernarfon

Drws Agored
Ydi, mae drysau Shiloh ar agor pob bore Gwener, rhwng 10 o’r gloch a 12 o’r gloch ar gyfer paned, sgwrs a chwmni. Dewch i ymuno gyda’r criw sy’n dod yn rheolaidd.

Y ddiweddar Mair Owen
Ym marwolaeth Mair Owen yn 75 oed, collodd ardal Bangor ac Ogwen un o’r cymeriadau mwyaf annwyl a hoffus a welwyd erioed. Ar ôl priodi, bu Mair yn byw yn Nhy’n Llidiart, Sling, cartref George ei gŵr, ac wedyn ym Mro Syr Ifor, Tregarth cyn symud i fyw yn ymyl ei hen gartref ei hun ym Mhenrhosgarnedd.

Roedd Mair yn un oedd yn mwynhau bywyd a thynnu coes i’r eithaf ond roedd hi hefyd yn caru ei gŵr, George, yn ogystal â’i phlant Arwel, Gareth a Siân. Roedd ganddi feddwl y byd o’i hwyrion a’i gor-wyrion a hoffai sôn amdany’n nhw wrth ei chyfeillion a’i chydhabod.

I bobl yr ardal, Mair Gilrhos oedd hi a mynychodd Mair Ysgol Gynradd Glanadda ac Ysgol Ganol Bangor cyn gadael i ddechrau gweithio’n 15 oed mewn siop nwyddau ym Mangor. Wedyn, bu’n gweithio am rai blynyddoedd i’r Cyngor gan gludo bwyd o amgylch yr ardal i’r henoed.

Yn anffodus, pan oedd hi’n 50 oed, dioddefodd Mair o lid neu waedlif yr ymennydd cyn cael cancr ar y croen yn nes ymlaen. Er gwaethaf ei salwch, brwydrodd Mair yn ôl i iechyd a chafodd fyw bywyd llawn am flynyddoedd yn dilyn yr afiechydon hynny.

Roedd ei diddordebau’n amrywio o ddilyn operâu sebon ar y teledu, i wyllo a



Mair ar ei gwyliau ar
Ynys Tenerife yn Ionawr 2019.
Brenhines ei haelwyd oedd hi

chwarae golff. Hoffai wyllo pêl-droed hefyd; roedd hi’n ffan ddigyfaddawd o Man Utd ac ar ambell i noson hoffai gêm o bingo yng nghwmni ei ffrindiau a George. Peth arall a fwynheuodd oedd mynd dramor ar wyliau a soniai gryn dipyn am y gwyliau a gafodd yng nghwmni gwahanol ffrindiau dros y blynyddoedd.

Trist iawn ydy cofnodi bod y cancr wedi dychwelyd i’w llethu ond nid oedd ei dewrder na’i hysbryd cryf yn ddigon i goncro’r aflwydd milain hwnnw y tro hwn. Bu farw’n frawychus o sydyn yn niwedd Awst a bu ei hangladd

yn Amlogfa Bangor o dan ofal y Parchedig Ddoctor Huw John Hughes ar Fedi 11. Derbyniwyd dros £1400 er cof amdani a rhannwyd y swm hwnnw rhwng y Deillion a Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd. Roedd y swm o arian a gafwyd yn dyst i’w phoblogrwydd ac yn dangos y nifer enfawr o gyfeillion oedd gan Mair a George.
Derbynied y teulu oll ein cydymdeimlad cywiraf ar yr amser hwn o dristwch a gofid.

Eglwys y Santes Fair
Gwasanaethau
Hydref 20 – Boreol Weddi 11yb
Hydref 27 – Dim gwasanaeth.
Ymuno â St. Tegai am 11yb.
Tachwedd 3 – Boreol Weddi 9:30yb
Tachwedd 10 – Cymun Sul y Cofho 9:30yb
Tachwedd 17 – Boreol Weddi 9:30yb
Pob dymuniad da i’r Parch John a Mrs Sue Matthews ar eu bywyd newydd yn Seland Newydd – bydd colled fawr ar eu hôl.
Hefyd felly yn achos y Parchedig Christina McRae, sy’n symud yn ôl i Iwerddon wedi blynyddoedd lawer yn Nyffryn Ogwen – dymunwn y gorau iddi.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR

SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

Ysgol Abercaseg

Ymweliad diddorol

Daeth Gwawr o'r gwasanaeth tân i'r ysgol i drafod gyda phlant blwyddyn 2 am ddiogelwch tân. Trafodwyd gyda'r plant sut mae'r gwasanaeth tân yn gallu helpu pobl, plant ac anifeiliaid sydd mewn argyfwng. Yn ogystal â hyn cafodd y plant weld offer a dillad arbennig mae'r gweithwyr tân yn eu gwisgo i'w hamddiffyn. Roedd pawb wrth eu boddau yn cael cyfle i wisgo'r dillad! I ddiweddu'r ymweliad, cafodd pawb waith cartref ganddi - sef sicrhau fod eu larymau tân yn gweithio.

Croeso

Mae'n braf croesawu plant Dosbarth Meithrin i'r ysgol ac ambell blentyn arall sydd wedi cychwyn hefyd. Hefyd hoffwn groesawu Miss Griffith sydd yn dysgu am gyfnod yn nosbarth Ogwen. Gobeithio fod plant blwyddyn 2 y llynedd wedi ymgartrefu ym Mhen y Bryn, a'u bod yn ceisio eu gorau glas.

Clwb Chwaraeon yr Urdd

Mae'r clwb pêl-droed wedi ail ddechrau ym Mhlas Ffrancon ac eleni mae disgyblion Ysgol Abercaseg wedi cael cyfle i ymuno yn yr hwyl gan gymryd rhan yn y 'sesiwn blas'. Yn

ystod y sesiwn, cafodd y plant gyfle i chwarae gemau ac ymarfer eu sgiliau pêl-droed.

Kerbcraft

Mae plant blwyddyn 1 a 2 yn ffodus iawn eleni - maen nhw'n cael cymryd rhan mewn sesiynau 'Kerbcraft'. Bwriad y cynllun yw sicrhau bod plant yn cael y cyfle i ddysgu rheolau a sut i gadw'n ddiogel ar y ffordd. Mae'r criw wedi dysgu tipyn yn barod!

Clwb Cwpan y Byd

Wel am hwyl ar gychwyn y flwyddyn ysgol - Plant blwyddyn 1 a 2 yn cymryd rhan yn Clwb Cwpan Rygbi'r Byd! Mae'r plant wedi cychwyn dysgu ychydig o sgiliau'r gêm yn ogystal â dysgu ychydig am y 20 gwlad sydd yn cymryd rhan, er enghraifft, eu lleoliad ar y map a dysgu am y baneri.



SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

RHAGLEN 2019/2020

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch**.

Lleoliad y cyfarfodydd : **Festri Capel Jerusalem, Bethesda 2019**

Nos Lun 14 Hydref	7.00 Y CYFARFOD BLYNYDDOL
	7.30 Elin Tomos – <i>Merched a'r Gymuned Chwarelyddol</i>
Nos Lun 11 Tachwedd	7.00 Alun Roberts – <i>Cysylltiad Teulu Gwern Gôf Isaf, Capel Curig a Bwthyn Ogwen</i>
Nos Lun 9 Rhagfyr	7.00 Deri Tomos – <i>Gwyddonwyr Dyffryn Ogwen</i>

2020

Nos Lun 13 Ionawr	7.00 Howard Huws – <i>Saint Dyffryn Ogwen</i>
Nos Lun 10 Chwefror	7.00 David Jenkins – <i>"Gyda'r amcan o roddi cyfleusterau i chwarelwyr Bethesda wneud defnydd enillfawr o'u harian" – hanes Cwmni Llongau Bethesda, 1877-1898</i>
Nos Lun 9 Mawrth	7.00 Ieuan Wyn – <i>Teulu Brenhinol Cymru ac Arllechwedd</i>

[Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]

FFI AM Y CWRS	£6.00 i rai mewn gwaith £3.00 i bensiynwyr a'r di-waith Plant ysgol am ddim Cost darlithoedd unigol = £1.50
----------------------	--

Y ffioedd i'w talu ar noson gyntaf y tymor. Sieciau yn daladwy i : Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2018/19:

Cadeirydd: Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog (01248) 602021

Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, (01248) 600798
dafydd@caerwern.cymru

Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Sefydlwyd1969

m.hughes

a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

CHWILAIR

A	A	P	W	F	H	B	W	R	D	D	G	W	E	R	T	H	U	R	S
I	E	A	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	I	H
E	I	N	T	M	G	V	H	M	\$	G	D	W	H	U	Z	M	W	X	V
A	D	E	D	A	N	A	P	A	E	U	W	Q	U	S	O	G	F	R	P
Y	L	D	Q	Z	L	G	R	H	A	C	U	O	M	W	R	N	O	Y	R
I	L	O	A	S	Z	M	U	T	F	F	D	X	B	U	P	W	R	H	C
Q	E	D	U	H	W	E	Y	H	N	O	Y	E	E	R	G	E	O	M	H
E	F	E	S	P	T	T	C	N	F	B	B	C	U	U	A	J	P	L	T
M	R	I	A	V	V	D	U	C	E	B	B	F	R	F	O	U	G	J	V
I	I	I	H	R	R	X	A	I	C	D	M	H	T	T	O	S	K	O	P
W	T	R	T	C	M	K	D	C	N	B	I	O	R	C	X	V	R	Y	H
S	H	T	I	M	L	R	A	E	A	F	Y	A	J	D	Z	H	B	C	W
O	S	C	E	R	F	A	I	I	F	X	N	I	D	L	X	J	J	M	B
W	T	E	D	X	F	M	D	D	L	X	K	F	U	P	C	Q	Y	O	I
L	F	E	M	R	A	Z	U	Q	O	R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z
E	B	E	Y	A	R	J	M	K	N	J	C	L	N	L	R	V	O	G	J
P	W	P	C	G	S	O	W	J	A	J	B	I	S	G	E	D	I	Q	U
L	F	S	V	T	X	E	U	G	C	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W
T	Z	H	K	V	E	L	U	S	E	N	A	U	A	G	B	N	K	A	D
S	I	K	O	G	D	H	B	S	I	U	R	O	X	A	G	X	R	A	E

BORE COFFI

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG PETH YN YMWNEUD Â BORE COFFI i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn HYDREF 29. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Llawer iawn ohonoch wedi darganfod tomen o enwau yn y chwilair mis diwethaf. Rwyf yn ymddiheuro am roi testun mor ben-agored ac yn gobeithio bydd y chwilair yma yn haws. Byddwch yn ofalus gan fod mwy nag un gair yn rhai o'r atebion mis yma. **Dyma atebion Medi :-** Alun; Begw; Bleddyn; Caerwyn; Cynan; Eirwen; Enlli; Fflur; Nesta; Rheon; Siwan; a Tudur. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Merfyn a

Laura Jones, Halfway Bridge; Mair Jones, Ffordd Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Bowen, Gerlan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Doris Shaw, Bangor; **Enillydd Medi oedd:-** Gwenda Bowen, 10 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni
(01248) 723106

Porthaethwy
(01248) 719517

Benllech
(01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Wärme HEATING

DOSBARTHWYR LLEOL AR GYFER
GWRESOGYDDION STORIO
EFFEITHLON O'R ALMAEN



YN EFFEITHLON O RAN YNNI | DYLUNIAD MAIN | GWARANT 30 MLYNEDD

RHEIDDIADURON TRYDAN



Y datrysiad perffaith i gymryd lle eich hen reiddiaduron storio neu system wresogi



- Gwresogi yn sydyn
- Rhaglennu 24/7
- Perfformiad uchel a Glân
- Rheoli pob ystafell yn annibynnol
- Yn gydnaws ag Economy 7
- Dim costau gwasanaethu a chynnal a chadw
- Yn cydymffurfio â Lot20
- Wedi eu gosod gan Osodwyr NICEIC Cymeradwyedig

RHATCH NAG OLEW AC LPG

CYNNIG Y **GWANWYN** - 10%
I FFWRDD WRTH NODI **PAPUR BRO**



ER MWYN TREFNU EICH AROLWG RHAD AC
AM DDIM FFONIWCH OS GWELWCH YN DDA

01248 371 730 | 07845 034 622 | www.warmeheating.co.uk



Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf, mae'r côr yn gweithio ar brosiect gyda Chastell Penrhyn fydd yn arwain at gyflwyniad y gellir ei ddefnyddio yn rhaglen gyngherddau'r côr. Mae Castell Penrhyn wedi derbyn nawdd gan y Cyngor Celfyddydau i wneud gwaith ymchwil i'r posibilrwydd o greu cyflwyniad gyda Chôr y Penrhyn, a hynny yn y lle cyntaf, ar dir y castell. Bydd hwn yn gyflwyniad heriol i'r côr a hefyd, yn agoriad llygad i'r gynulleidfa. Mae Siwan Llynor, yr actores a'r gyfarwyddwraig artistig, wedi ei phenodi i wneud y gwaith ymchwil ar ein rhan, ac yn wir mae Siwan wedi bod yn ymarferion y côr ac wedi cael trafodaeth gyda nifer helaeth o'r aelodau. Mae hi wedi cael syniadau gwych yn ystod y sesiynau hynny ac mae hi wedi bod yn siarad gyda rhai haneswyr yn y fro er mwyn cael ffeithiau a syniadau newydd ganddyn nhw. Yn ôl tystiolaeth Siwan ei hun ar Trydar, mae hi wedi mwynhau'n fawr y sesiynau mae hi wedi eu cynnal efo'r côr ac meddai mewn un lle;

“Sesiwn symud wych gyda Cai Tomos a chriw arbennig @CoryPenrhyn fel rhan o brosiect ymchwil a datblygu prosiect #Perthyn. Waw edrych ymlaen i'r arbrawf nesa”. Ac yna, “Am ddiwrnod gwych ac am griw anhygoel 'di @CoryPenrhyn - fraint cael cydweithio ar y prosiect yma - edrych ymlaen yn arw at yr arbrawf nesa @siwanllynor

aelodau'r côr a hefyd gan staff Castell Penrhyn. Mae rheolwyr y castell yn gefnogol eithriadol i'r syniad sy' tu ôl i'r prosiect yma ac wedi buddsoddi oriau staff er mwyn sicrhau bod y prosiect yn mynd yn ei flaen mewn modd perthnasol, a dylem fel côr fod yn falch o'r berthynas sydd rhyngom a staff rheoli'r castell.” Aeth Alun yn ei flaen i egluro, “Mae'r cyfnod ymchwil bron a dod i ben. Yn awr rhaid cyfuno'r holl waith ymchwil gyda gwaith o ddatblygu'r stori a'r perfformiad. Fel rhan o'r prosiect mae angen gwneud gwerthusiad o'r hyn sydd wedi'i ymchwilio, ond hefyd gwerthusiad o ymateb y côr i'r her o berfformio darn arbrol, yn lleisiol a chyda symudiadau (nid dawnsio!!!). Fel rhan o'r gwaith gwerthuso ac arbrofi bydd sesiynau yn cael eu cynnali er mwyn arbrofi gyda gwahanol ddulliau o berfformio a bydd y sesiynau hynny yn cael eu ffilmio.”



Alun Davies, Swyddog Technegol y côr.



Fel y dywedodd Alun Davies, Swyddog Technegol y côr, “Mae'n deg dweud, a phwysleisio, bod oriau o waith wedi mynd i mewn i'r prosiect hyd yma, gan Siwan wrth gwrs, ond hefyd gan

TAITH AMERICA 2020
Noson Dwynwen yn Llanfairfechan
Mae'r trefniadau ar gyfer taith y côr i America'r flwyddyn nesa' yn mynd ymlaen ar garlam. Mae John Ieuan Jones yn perfformio yn Philadelphia fel unawdydd a chyda'r côr. Mae criw Llanfairfechan yn trefnu Noson Dwynwen yn Neuadd y Dref ar 25 Ionawr lle bydd y côr, Alistair James a Gruffydd Wyn yn diddanu. Mae hwn yn gyfle ardderchog i ledaenu enw da'r côr.

CYNGERDD BLACK DYKE
Mae cytundeb wedi ei arwyddo gyda band y Black Dyke a byddwn yn perfformio gyda nhw ar y 27ain o Fehefin 2020 yn Venue Cymru, Llandudno. Mae'r cyngherddau yn y gorffennol wedi gwerthu allan yn fuan, a bydd gofyn i bwy bynnag sydd am gael gwrando ar fand pres gorau'r byd a chôr meibion prysuraf Cymru yn sicrhau eu bod yn archebu seddau cyn gynted ag y bydd y tocynnau ar gael.

CLWB GOLFF CONWY 11 MEHEFIN 2020
Mae'r côr wedi derbyn gwahoddiad i ganu yn seremoni agoriadol Cwpan Curtis, sef cystadleuaeth golff rhyngwladol i ferched sydd wedi ei seilio ar ffurf y “Ryder Cup”. Mae gofyn i'r côr, yn ystod y seremoni, ganu anthemau'r gwledydd sydd

yn cymryd rhan, sef anthemau Cymru, Iwerddon, Lloegr ac America.

CYNGHERDDAU ELUSENNOL
Dyma rai o'r elusennau y bu'r côr yn eu cefnogi yn ystod y flwyddyn a aeth heibio;
Rhagfyr 2018. Cyflwyno siec i'r ‘Teenage Cancer Trust’ mewn cyngerdd yn y gadeirlan er budd Hosbis Dewi Sant.
Mawrth 2019. Cyngerdd elusennol er budd y Comisiwn Heddlu a Throsedd yng Nghadeirlan Bangor gyda ‘Only Boys Allowed’, Elin Fflur ac eraill.
Mehefin 1, 2019. Cyngerdd Elusennol gyda Band Stavanger, er budd Hosbis Dewi Sant a Chymdeithas Clefyd Motor Niwron.
Mehefin 15, 2019. Gŵyl Zip World er budd yr elusen ‘Cariad, Gobaith, Nerth’ gyda Mike Peters o'r grŵp roc ‘Alarm’
Nadolig bob blwyddyn. Codi arian at wahanol achosion da gan gynnwys Ambiwlans Awyr Cymru, Cancr ac elusennau eraill gyda pherfformiadau Canu Carolau yn Tesco ac Asda.

Haydn Davies, Cadeirydd y côr yn cyflwyno siec am £1000 i gynrychiolwyr y clefyd Motor Niwron.



Menter Iaith Dyffryn Ogwen

‘Bluebell Path’

Bydd darllenwyr y Llais wedi sylwi bod yr arwydd Saesneg ‘Bluebell Path’ wedi diflannu o Barc Moch wrth groesffordd Bryn Bella. Tynnwyd sylw at y gwarth trwy lythyru efo’r Cyngor Sir a’r cyngor cymuned. Rhaid gofalu am enwau hanesyddol ein hardal, a gwneud yn siŵr nad oes enwau gwneud Saesneg yn cael eu rhoi ar lecynnau, fel sydd wedi digwydd yn Nant Ffrancon, Nant y Benglog a Chwm Idwal. Yn wir, mae tueddiad arall ar waith hefyd, sef rhoi enwau Cymraeg anghywir ar lefydd. Parc Moch ydi enw’r goedwig, nid Coed Ogwen. Ac ym mhen uchaf Nant Ffrancon, Rhaeadr y Benglog sy’n iawn, ac nid Rhaeadr Ogwen.

Arwyddion Gorsaf Betrol Llys y Gwynt
Mynegwyd siom nad oedd Cyngor Gwynedd wedi gosod amod iaith ar gwmni Euro Garages a gafodd

ganiatâd cynllunio i ail-wneud yr orsaf betrol yn Llys y Gwynt. Collwyd cyfle i sicrhau y byddai holl arwyddion y busnesau sydd ar y safle yn rhai ddwyieithog efo’r Gymraeg uwchben y Saesneg fel y dylent fod. Yn dilyn cais gennym i’r cwmni, cawsom addewid y byddai’r sefyllfa wedi ei chywiro fisoedd yn ôl. Beth bynnag, ni ddigwyddodd hynny, a byddwn yn dal i bwysu arnynt, ac ar y cyngor sir i fynd ynglŷn â’r mater hwn gan gynnwys cael polisi o ddarparu gwasanaeth dwyieithog drwy gyflogi staff sy’n medru’r Gymraeg yn yr holl fusnesau sydd ar y safle.

Datblygiad Tai
Cynhaliwyd ymgynghoriad anfodddhaol gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf. ar y bwriad y godi stad o dai ar dir wrth Llwyn Bedw, Rachub. Ymhlith y cwynion a glywsom oedd nad oedd y sesiwn ymgynghori a

gynhaliwyd gan y cwmni yn ystod yr haf wedi ei hysbysebu’n ddigon trylwyr, a bod diffyg o ran cyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

Nid oes cais cynllunio wedi ei gyflwyno eto, ond mae’n bwysig bod y datblygiad yn cynnwys tai addas sydd eu hangen ar yr ardal. Rydym wedi anfon at adran gynllunio ac adran dai y cyngor sir i ofyn sut maen nhw’n mesur yr angen cymunedol am wahanol fathau o dai, ac at Brif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd efo nifer o gwestiynau mewn perthynas â’r ymgynghoriad a’r datblygiad arfaethedig.

Cais i wneud yr Ardaloedd Chwarelyddol yn Safle Treftadaeth y Byd
Cynhaliwyd ymgynghoriad ar enwebu Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd. Yr ardaloedd dan sylw yn fras yw

Dyffryn Ogwen, Dyffryn Peris, Dyffryn Nantlle, Cwm Pennant, Blaenau Ffestiniog-Porthmadog, Abergynolwyn-Tywyn ac Aberllefenni. Mae sawl un wedi eu siomi nad yw Cyngor Gwynedd yn ei adroddiad ar bosibiliadau’r dynodiad yn cyfeirio at effaith y fath ddatblygiad ar y Gymraeg. Mater arall a godwyd yw’r cwestiwn ynghylch rhan a swyddogaeth cynghorau cymuned yr ardaloedd hyn yn y broses hyd yma. Ymddengys nad oes gan y cynghorau cymuned gynrychiolaeth ar y corff sy’n llywio’r broses. Pwynt allweddol arall sydd wedi ei godi gan y mudiadau iaith ydi’r angen hanfodol i sicrhau bod ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol yn amod caniatâd cynllunio ac yn amod derbyn cyllid cyhoeddus ar fentrau a phrosiectau a fyddai’n cael eu datblygu yn sgil dynodi’r ardaloedd hyn yn Safle Treftadaeth y Byd.

LLYTHYRAU

Annwyl olygydd,
Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Yr ydym (Cyhoeddiadau’r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020, fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy’n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment hon. Mae hon yn fenter gyffrous, a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel ei gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i’w henw, a beirdd sy’n cyhoeddi am y tro cyntaf un.

Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i’r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus, ond mae ein llyfrau a’n cyfrolau i’w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol, a thrwy ragarchebion.

Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang

a phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer cael eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i’w hystyried atom erbyn Rhagfyr y 31ain, 2019, a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).

Mae mwy o wybodaeth i’w chael o’n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu’n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp@gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i’r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.

Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi’n rhannu’r neges hon gyda’ch darllenwyr.

Diolch o galon,
GRUG MUSE, ar ran Cyhoeddiadau’r Stamp.



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 2019**
Hydref
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
- Tachwedd**
02 Cefnfaes – Clwb Camera.
09 Festri Jerusalem – Gofal Dementia
16 Cefnfaes – Gorffwysfan.
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
30 Cefnfaes – Plaid Lafur.

- Rhagfyr**
07 Cefnfaes – Ysgol Sul Jerusalem.
14 Cefnfaes – Cwmni Drama'r Llechen Las.

- 2020**
Ebrill
18 Cefnfaes – Cymdeithas Jerusalem.
25 Cefnfaes – Plaid Lafur.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Tachwedd 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Tachwedd 20fed
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Rhagfyr 14eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
HYDREF 22 a 29
TACHWEDD 12 a 26
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
CLWB CAMERA**
DYFFRYN OGWEN
SADWRN, 2 TACHWEDD
10.00 – 12.00

FESTRI JERUSALEM

BORE COFFI
SADWRN, 9 TACHWEDD
10.00 – 12.00
TOCYNNAU: £1.00
ELW: GOFAL DEMENTIA

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
GORFFWYSFAN**
SADWRN, 16 TACHWEDD
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
EGLWYS ST. CEDOL**
PENTIR
SADWRN, 26 HYDREF
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
NEUADD TALGAI**
SADWRN, 23 TACHWEDD
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI
EISTEDDFOD
DYFFRYN OGWEN**
SADWRN, 19 HYDREF
10.00 – 12.00

Cymdeithas Jerusalem

MR. BOB MORRIS
"CHWILIO AM MADOG"

yn Festri Jerusalem
Nos Iau, 14 Tachwedd
am 7 o'r gloch

**CYFARFOD
BLYNYDDOL
LLAIS OGWAN**
Nos Iau,
7 Tachwedd 2019
am 7.30
yng Nghanolfan
Cefnfaes

NEUADD OGWEN
DYDD SADWRN 09 TACHWEDD

**GIG ELECTRIC
SWING CIRCUS
+ DJ CODE-13**

YDYN ...MAE NHW NÔL!
£12 O FLAEN LLAW
A £14 AR Y DRŴS.



Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Croeso Cynnes i Bawb
Lleoliad:
Canolfan Cefnfaes, Bethesda
7.15yh - 9.30yh

RHAGLEN HYDREF - RHAGFYR 2019

- 16 Hydref 'Delweddau' - Ronnie Williams LRPS
- 30 Hydref Cystadleuaeth - Agored
- 2 Tachwedd Bore Coffi, Cefnfaes, 10.00
- 13 Tachwedd I'w gyhoeddi
- 27 Tachwedd 'Taith y Ddraig' - Margaret Salisbury MFIAP FRPS APAGB
- 11 Rhagfyr Noson Aelodau

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau:
www.dyffrynogwencamera.co.uk

Sgwrs a Chân

Canolfan Iechyd
yr Hen Orsaf, Bethesda
1.15 - 2.30
Dewch i fwynhau sgwrs a
chân dros banded
Croeso cynnes i bawb.

Dyddiadau:
Hydref 18
Tachwedd 1, 15, 29
Rhagfyr 13

Gwybodaeth: 01286 685230

Ysgoldy Carmel, Llanllechid

TE BACH

Pnawn Llun, 21 Hydref
2.30 - 4.00
Croeso i bawb

Y Gerlan

Caren Brown Cilwern, 14 Ffordd
Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn, 2 Pen Clwt, Gerlan
LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 /
heleddselwyn@hotmail.com

Priodas

Mis diwethaf, priodwyd Sion Doyle o Fferm Tyddyn Du a Nesta Doughty o Gaernarfon ar Fedi'r 14eg. Cafwyd amser gwyh yn dathlu yng Ngwesty'r Seiont Manor. Dyma lun o'r ddau ar eu diwrnod arbennig. Pob hapusrwydd a chariad Mr a Mrs Doyle.



Sion a Nesta Doyle

Cydymdeimlo

Ymddiheuriadau o waelod calon na fu i ni gydymdeimlo â theulu'r diweddard Gwyn Morgan yn y Llais fis diwethaf. Cafodd Gwyn ei eni a'i fagu'n Gerlan ac yma y bu'n byw drwy gydol ei oes hyd nes iddo ein gadael yn sydyn ym mis Gorffennaf. Mae ein cydymdeimlad yn fawr iawn efo'r teulu i gyd a gyrrwn gofion cynnes iawn i chi yn eich profedigaeth.

Gwellhad buan

Bu i Lisa Jên, Gwernydd dreulio amser yn yr ysbyty ddechrau mis Medi. Gobeithio dy fod yn cryfhau ac yn gwella, Lisa.

Clwb Cymdeithasol Y Gerlan - Gwahoddiad i Aelodau Newydd

Mae Clwb Cymdeithasol y Gerlan yn estyn gwahoddiad i aelodau newydd ymuno gyda'r mudiad yn Y Caban yn hen ysgol Gerlan. Yn ymgynnull pob pythefnos ar brynhawn Mercher o 1.30 - 3 o'r goch, mae aelodaeth yn £1.00 fesul cyfarfod.

Dewch i'r cyfarfod nesaf ar brynhawn Mercher, Hydref 30, a bydd croeso cynnes a hwyliog yn eich disgwyl!

Caban Gerlan

Ym mis medi, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Caban Gerlan. Mae'r Caban yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd - cyfle i bobl wirfoddoli yn eu cymuned a helpu i warchod adnodd pwysig iawn yn y Gerlan. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn ymddiriedolwr neu eisiau cael sgwrs am beth mae bod yn ymddiriedolwr ynei olygu yn ymarferol, mae croeso i chi gysylltu gydag ysgrifennydd y neuadd, Caren Brown ar 01248 602509.

Mae 'na amrywiaeth o weithgareddau yn digwydd yn y neuadd yn wythnosol:
Nos Lun - Brownies
Nos Fawrth - Ffermwyr Ifanc
Dydd Mercher - Clwb Cymdeithasol
Nos Fercher - Tai chi
Pnawn dydd Iau - Ioga i blant
Bore dydd Gwener - Clwb Celf

Os oes gennych ddiddordeb mewn cynnal gweithgaredd arall neu barti, mae'n bosib llogi'r neuadd am £10 am sesiwn 2 awr (i grwpiau sydd ddim yn gwneud elw) ac £20 i bartïon a gweithgareddau codi arian.

Neuadd Bentref Rhiwlas Cyfres Darlithoedd Hanes

29ain Hydref am 7.00pm
gan Richard Ninnies,
Cyfoeth Naturiol Cymru

'Chwalu'r Chwedlau am Camp,
Safle RAF yr Ail Ryfel Byd'

(dalier sylw: Saesneg fydd
cyfrwng y ddarlith)

Mynediad i'r ddarlith: £3.00

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 30 Hydref os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu nos Iau, 14 Tachwedd, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae
CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
yn gwahodd

ceisiadau am nawdd ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen
ei ddychwelyd gyda'ch Mantolen Ariannol
ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc
cyn **31 Rhagfyr 2019**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae
CYNGOR CYMUNED BETHESDA
yn gwahodd

ceisiadau am nawdd ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich
Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd
â manylion eich banc at y Clerc cyn
31 Rhagfyr 2019

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Hysbysiad Pwysig

Mae
CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
yn gwahodd

ceisiadau am nawdd ariannol gan
Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich
Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â
manylion eich banc at y Clerc cyn
31 Rhagfyr 2019

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Medi 2019

1af Rhif 3 Ella Roberts-Jones, Rhiwlas
2ail Rhif 27 Ann Illsley, Pentir
3ydd Rhif 31 Alys Jones, Bethel

Cyfarchion

Hoffwn anfon ein cyfarchion am wellhad buan
i David Emlyn Williams, ein Warden, sydd
ddim wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar.
Brysiwch wella Dafydd.

Ffair Grefftau

Dydd Sadwrn 16 Tachwedd yn Neuadd Bentref
Rhiwlas, bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Ffair
Grefftau Nadolig. Byd amrywiaeth o stondinau
i gyd gan grefftwyr lleol. Bydd y drws yn
agored o 11yb tan 4yh. Bydd cawl a lluniaeth
ysgafn ar gael yn ystod y dydd. Croeso cynnes
i bawb a cyfle i chi ddechrau eich siopa
nadolig.

Bore Coffi

Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Bore Coffi
yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn Hydref
26 rhwng 10yb a hanner dydd. Mae croeso
cynnes i bawb.

Gwasanaethau Arbennig

Bydd dau wasanaeth arbenning yn cymeryd lle
yn Mro Ogwen yn ystod Mis Hydref wrth i ni
farwelio â'n Offeiriad Cynorwthwyol, Y Barch
Christina McCrea a'r Ficer ac Arweinydd Ardal
Weinidigaethol Bro Ogwen Y Parch John
Matthews.

Ar Nos Sul 20 Hydref am 6yh yn Eglwys
St. Cedol Pentir bydd gwasanaeth i ddathlu
Cenhadaeth a Gwaith Christina yn y Fro.
Hoffwn ddiolch i Christina am ei chefnogaeth
a'i chyfeillgarwch dros y blynyddoedd.
Dymunwn pob hapusrwydd a bendith iddi.

Bore Sul Hydref 27 am 11yb yn Eglwys
St. Tegai, Llandegai bydd gwasanaeth I
ddathlu Gwaith a Chenhadaeth Y Parch John
Matthews, cyn iddo ef a'i wraig Sue ymfudo i
Seland Newydd. Pob bendith i chi ar y fenter
newydd.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethu am 9.45yb os na ddywedir
yn wahanol

20.10.19 Cymun Bendigaid
20.10.19 6yh Gwasanaeth Farwel Y Parch
Christina McCrea
27.10.19 11yb Gwasanaeth ddiwethaf
Y Parch John Matthews
3.11.19 Cymun Bendigaid
10.11.19 Gwasanaeth Coffa
17.11.19 Cymun Bendigaid
Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y
gwasanaethau

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Wesyn Dafydd ar raddio
ym Mhrifysgol Met Caerdydd eleni gyda 2:1 a
chael ei benodi'n swyddog chwaraeon gyda'r
Urdd yng Nghaerdydd.
Dymuniadau gorau i Cedol Dafydd ym
Mhrifysgol Caerfaddon lle mae'n dilyn cwrs
rheolaeth a hyfforddi chwaraeon.

A llongyfarchiadau i Marteg Dafydd ar ei
llwyddiant yn yr arholiadau TGAU. Mae hi
bellach wedi cychwyn astudiaethau Lefel A.

Yn olaf, braf oedd gweld y delynores Glain
Dafydd nôl yn y Galeri'n perfformio ar
adeg penblwydd Canolfan Gerdd William
Mathias. Yn dilyn cael y wisg wen efo'r Orsedd
eleni, bu'n perfformio mewn gwyl yn Saluzzo yn
yr Eidal.

Ras Hwyl Pentir

Yn ystod yr haf cynhaliwyd y ras hwyl
flynyddol ar hyd llwybrau a lonydd cefn
gwlad Pentir. Daeth 132 ynghyd i gymryd
rhan ar noson hynod o braf. Mae'r trefnwyr
eisiau diolch i bawb wnaeth redeg ac i'r holl
wirfoddolwyr oedd ar gael er mwyn sicrhau
diogelwch y cystadleuwyr.

Tomos Land o Glwb Bae Colwyn oedd y dyn
cyntaf a Rhi Willmot o Glwb Cybi Striders
oedd y ferch gyntaf dros y llinell derfyn.

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffï neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Ymddiheuriad
Oherwydd rhesymau technegol, ni ymddangosodd newyddion Eglwys St Tegai yn rhifyn Medi, felly gwelir sawl pwt o newydd o'r haf yn y rhifyn yma.

Diolch
Dymuna Gwenan a Peter Llewelyn Atkinson ddiolch i'r gynulleidfa am y cymorth i lanhau ac addurno'r eglwys ar gyfer eu priodas. Roedd yr eglwys yn ddarlun o brydferthwch!

Noson o Farddoniaeth a Cherdd
Cawsom wledd o gerddi a cherddoriaeth ar nos Wener, Awst 2 gan Richard Douglas Pennant a'i gyfeillion, y beirdd Karen Owen a John Barnie a'r cerddor Huw Warren. Roedd yn wefr cael gwrandao ar farddoniaeth Cymraeg a Saesneg ar yr un rhaglen. Diolch i'n perfformwyr ac i Richard am drefnu'r achlysur.

Cydymdeimlo
Fel eglwys, cydymdeimlwn â Janet Jones, Cefn Coed ar golli ei mam, Mrs Alwena Jones (gynt o Fro Emrys, Talybont). Bydd hiraeth ar ei hôl yng ngweithgareddau'r eglwys.

Ymddeoliad yr Athro Ian Russell
Daeth chwe eglwys Bro Ogwen ynghyd ar fore Sul, Awst 25 i roi diolch am wasanaeth yr Athro Ian Russell fel darllenwr lleyg. Mae Ian yn ymddeol o'i ddyletswyddau ym mhlwyf Bro Ogwen ar ôl 17 o flynyddoedd. Cyflwynodd pob eglwys rodd iddo ac i Daphne ei wraig am eu gwaith a'u gweinidogaeth yn ein plith. Cânt seibiant efallai o hyn ymlaen i fwynhau mwy ar gwmni y wyrion a gweddill y teulu yng Nghaeredin. Dymuniadau gorau i'r dyfodol!



Priodasau
Llongyfarchiadau i Gwenan Llewelyn Jones, 15 Trefonwys Bangor ar ei phriodas â Peter Atkinson, Tadworth Surrey ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 27ain yn Eglwys St Tegai, Llandygai. Mae Gwenan yn gyfreithwraig gyda chwmni Macfarlanes yn Llundain tra mae Peter yn gweithio i gwmni Black Rock. Dymuniadau gorau i'r pâr ifanc!

Cwpl arall a fu iddynt briodi yn St Tegai dros yr haf oedd Tracey Hughes a Colin Humphreys, y ddau gyda chysylltiad â'r eglwys fel rhiaint yn Ysgol Llandygai. Llongyfarchiadau iddynt hwythau!

Prynhawn Coffi
Eleni cawsom wahoddiad i gynnal prynhawn coffi ar Awst 31 yng ngardd Ficerdy Pentir er budd St Tegai. Diolch i'r Parch a Mrs J Matthews am eu cynnig parod, yn enwedig pan ddaeth y glaw a bu rhaid trosglwyddo'r cwbl i'r tŷ! Er siom y tywydd cafwyd prynhawn hyfryd o sgwrsio, tombola, sawl stondin ac wrth gwrs, paned a theisennau. Diolch i bawb a gyfrannodd i sicrhau llwyddiant y prynhawn.

Codi arian
Unwaith eto eleni ym mis Medi, rhoddwyd cyfle i St Tegai gynnal stondin elusennol ym

Marchnad Ogwen. Rydym yn dra ddiolchgar i'r farchnad am y cyfle i godi arian at yr achos.

Cyfle arall i godi arian oedd y bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Fedi 24. Bu amryw o stondinau a digon o gyfle i sgwrsio dros baned a bisgedi. Diolch i drigolion y fro am eu haelioni tuag at yr eglwys.

Adferiad Buan
Dymunwn wellhad buan i bawb yn y gynulleidfa sy'n cael triniaeth neu brofion meddygol ar hyn o bryd.

Ymweliad yr Archddiacon
Llawer o ddiolch i bawb a fynychodd wasanaeth ymweliad Archddiacon Bangor. Cynhaliwyd gwasanaeth y fro yn Eglwys St Tegai ym mis Medi - roedd yr Archddiacon Mary yn edmygu'r gwaith yn y fro, a diolchodd am y croeso a dderbyniodd.

Ymddeoliad y Parchedig Christina McCrea
Dymunwn iechyd da ac hapusrwydd i Christina wrth iddi dychwelyd i'w theulu a'i chynefin yng Ngogledd Iwerddon. Dathlodd yn ddiweddar bum mlynedd o wasanaeth ac mi fydd colled fawr ar ei hôl. Roedd yn arwain gwasanaethau yn dawel ac yn ddiymhongar a gwerthfawrogwyd ei hymdrechion i ddysgu'r Gymraeg.

Gwasanaethau Eglwys Sant Tegai mis Hydref
Hydref 20 - Cymun Bendigaidd am 11.00 y.b.
Gwasanaeth Olaf y Barch Christina McCrea yn St Cedol, Pentir am 6.00 y.h.
Hydref 27 - Gwasanaeth Ffarwel y Parch John Matthews am 11.00 y.b.

Caffi Clwb Criced
Bydd chwith garw i'r ardal wedi i'r Chworiydd Turner symud o'r Caffi. Rydym yn dymuno'n dda iddynt yn eu menter newydd yn Felin Fawr, Coed y Parc, Bethesda.

Croeso'n ôl
Mae Dr a Mrs Ieuan Jones wedi symud yn ol i'r Bryn o Fethesda. Ymddeoliad hapus iddynt yn ein plith.



Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?

- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,

E-bost: admin@cslfarm.com,

Ein gwefan: www.cslfarm.com

L. Sturrs

a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Y Di-ffibriliwr
Mae Di-ffibriliwr wedi cyrraedd Talybont, ac wedi'i leoli ym Mro Emrys, ar wal gefn Capel Bethlehem. Y gobaith yw na fydd neb byth angen ei wasanaeth, ond, pe godai argyfwng, cysur yw gwybod bod offer addas ar gael. Diolch i'r swyddogion am ei osod.

Llongyfarchiadau
Braf oedd clywed bod Beca Nia, 36 Bro Emrys yn un o Brif-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen eleni. Gobeithio y caiff flwyddyn wrth ei bodd.

Ar yr un pryd, ymddiheurwn i Beca am gamgymeriad yn rhifyn Medi o'r 'Llais'.

Llwyddodd yn ei harholiad Gradd 8 ar yr Oboe gyda Rhagoriaeth, nid Teilyngdod.

Dydi 'Trydar' ddim yn chael hi'n iawn bob tro, mae arna' i ofn.

Llongyfarchiadau cynnes iawn i James, 10 Dolhelyg, a ddathlodd ei benblwydd yn 18 oed y dydd o'r blaen. Gwelsom luniau ohono, ar wefan 'Trigolion Talybont', yn cael hwyl yng nghwmni ei frawd a'i chwaer, Lisabeth a Zac, a nifer fawr o blant y gymdogaeth. Mae pawb yn hoff o James. Mae ganddo wên ar ei wyneb bob amser, ac mae'n ffrindiau efo ni i

gyd, o'r ieuengaf at yr hynaf.

Gwellhâd buan
Cafodd Lis Humphries, 6 Lôn Ddŵr (Lis Taccis), godwm cas ar y grisiau yn nhŷ ei merch, gan agor ei phen a chleisio ei chefn yn ddrwg. Mae'n dod ati hi ei hun yn raddol, ond yn dal mewn poen. Brysia wella, Lis !

Llun o'r pumdegau
Fe gofiwch i ni ofyn yn rhifyn Medi o'r Llais os oedd rhywun yn adnabod y bobol oedd yn y llun a dynwyd yn ardal Dolhelyg. Y farn gyffredinol ydi mai Tommy "Maypole" sydd ar y chwith gyda'i fab, Roderick ar ei fraich. Mae Helen Wyn (Tammy Jones) yn sicr mai Wil, ei brawd, sydd yn y canol, ac mae pawb a gysylltodd yn cytuno. Yn anffodus, mae'r cyfaill ar y dde yn parhau'n ddirgelwch!

Eglwys St Cross
Gwasanaethau'r Sul:
Mis Hydref:
20/10 - 9.45 a.m. - Cymun
27/10 - 11.00 a.m. - Cymun yn Eglwys St Tegai - Gwasanaeth olaf y Parchedig John Matthews yn Ardal Weinidogaeth Bro Ogwen. *DIM* gwasanaeth yn St Cross.

Mis Tachwedd:
3/11 - 11.00 a.m. - Cymun
10/11 - 10.50 a.m. - Sul y Cofio

Gweithgareddau eraill:
Dydd Mawrth, Tachwedd 5ed - Bore Coffi misol yn yr Ysgoldy am 10.30 a.m.

Nos Wener, Tachwedd 29ain - Noson Caws a Gwin yn yr Ysgoldy am 7.00 p.m.
Dydd Mawrth, Rhagfyr 3ydd - Bore Coffi Nadolig yn yr Ysgoldy am 10.30 a.m.

Capel Bethlehem
Oedfaon
Hydref 20: Parchg. W. H. Pritchard.
Hydref 27: Gweinidog.
Tachwedd 03: Parchg. John Lewis Jones.
Tachwedd 10: Gweinidog.
Tachwedd 17: Parchg. Ddr. Geraint Tudur.
Tachwedd 24: Gweinidog.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Dyddiad Pwysig - Cyfarfod Chwarter
Ar nos Fercher, 23 Hydref, cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yma ym Methlehem am 7 o'r gloch. Yn dilyn y rhan gyntaf arferol, pregethir gan y Parchedig Alun Tudur, Caerdydd. Dewch yn llu! Croeso cynnes i bawb.

Dyddiad pwysig arall
Gynhelir ein Ffair Nadolig flynyddol eleni ar nos Fercher, 4 Rhagfyr.

Llun a dynwyd cyn rhyfel 1939 – 1945

Mae perchennog y llun, Mr. Wynne Roberts, Tregarth, yn cynnig enwau pump o'r merched sydd yn y rhes uchaf, sef Joan Neuadd, Bryn Eithin?; Mair Hughes, Becws Carneddi; Nesta Hughes, Ffordd Carneddi; Megan Ffransis, Cilfodan; Eirlys Roberts, chwaer Gordon Roberts, Braichmelyn. Ydach chi'n cydweld? Ydach chi'n nabod rhywun arall sydd ymysg y criw? Rhowch wybod i Neville Hughes, 600853.

Deugeinfed Flwyddyn Llyfrau Llafar Cymru

Mae eleni yn flwyddyn nodedig i *Llyfrau Llafar Cymru* gan mai yn 1979 - deugain mlynedd yn ôl - y cychwynnodd y Mudiad. Breuddwyd Miss Rhian Evans, Caerfyrddin ydoedd a thrwy ddycnwch a brwdfrydedd egniol Rhian aeth y Mudiad o nerth i nerth ac erbyn heddiw mae tua 30 o wirfoddolwyr yn recordio darlenniadau o lyfrau Cymraeg a rhai Saesneg sy'n ymwneud â Chymru. Bydd pob recordiad yn cael ei brosesu i ddisgiau digidol a'u danfon at deillion a phobl ag amhariad ar eu golwg i'w galluogi i fwynhau'r llyfrau hyn. Danfonir y cyfryw iddynt a'u dychwelyd yn ddi-dâl.

Fel rhan bwysig o ddathlu'r *Deugain Mlynedd*, mae Rhian wrthi'n brysur y dyddiau hyn yn ysgrifennu hanes y fenter arloesol hon a bwriedir yn y dyfodol agos gyhoeddi'r hyn fydd wedi ei baratoi. Byddwn yn hysbysu dyddiad a lleoliad y lansio maes o law.

Mae'r gwasanaeth a gyflawnir gan Llyfrau Llafar Cymru yn dibynnu'n llwyr ar haelioni caredig unigolion, eglwysi a mudiadau yn ogystal â nifer o Gynghorau Sir a Bro ledled Cymru. Gwerthfawrogir yn fawr y rhoddion hyn. Nid ydym yn codi tâl am y ddarpariaeth i'n "*gwrandawyr*", ond mae arnom angen arian i gyflogi dau aelod o staff,

prynu adnoddau a chyfarpar angenrheidiol a chroesawir unrhyw rodd, fach neu fawr. Mae pob cyfraniad a gasglwn yn ein galluogi i barhau i wneud bywyd yn fwy pleserus i'r cannoedd sy'n cael eu hamddifadu o ddarllen oherwydd diffyg golwg.

Os gwyddoch am aelod o'ch teulu neu am bersonau yn eich ardal fyddai'n dymuno derbyn ein gwasanaeth, cysylltwch â ni a byddwn yn falch iawn i gwrdd â'ch gofyn. Am ragor o wybodaeth neu i dderbyn ein catalog cyfredol, ffoniwch: 01267-238225 neu danfonwch e-bost: lyfrauallafarcymru@outlook.com

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd
Llandygái ☎ 600744

Colled

Cydyndeimlwn â theulu Wyn Griffith, 1 Penrhiw, tad Bethan, Dylan, David a Catrin. Brawd Carol a thaid hoffus iawn. Roedd Wyn bob amser yn barod ei gymwynas. Bydd colled fawr ar ei ôl. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd yn eich profedigaeth.

Diolch

Dymuna Helen Williams, 4 Penrhiw, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr!

Eglwys St. Ann a St. Mair

Hydref 20^{fed} 9.30y.b. Boreol Weddi

Hydref 27^{ain} 11.00y.b. Cymun Bendigaid - Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys St. Tegai, Llandygai. (Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).

Tachwedd 3^{ydd} 9.30y.b. Boreol Weddi

Tachwedd 10^{fed} 9.30y.b. Cymun Bendigaid.

Tachwedd 17^{fed} 9.30y.b. Boreol Weddi.

Bydd unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau
i'w gweld ar yr hysbysfwrdd.
Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac
anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.



Coq au Vin

Cynhwysion

1½ pwys o ddarnau cyw iâr (coes a chlun yw'r gorau).

$\frac{3}{4}$ potel neu lond cwpan a hanner o win
coch (un digon da i'w yfed, ond dim yn rhy
felys).

2 owns o sribedi neu giwbiau cig mochyn
(*lardons*) (rhai heb eu mygu).

2 owns o fenyn (heb halen).

$\frac{1}{2}$ llwy de o halen a $\frac{1}{4}$ llwy de o bupur.

1/2 point o stoc.

1 llwy fawr o bast tomato.

1 llwy fawr o olew.

Bouquet garni (yn cynnwys 1 ddeilen llawr (bay), 1 sbrigyn o deim, 2 sbrigyn o berlllys (persli) fflat wedi'u clymu efo'i gilydd.

2 ewin o arlleg (wedi eu malu).

9 o nionod bach.

6 owns o fadarch.

1½ owns o *beurre marie* wedi'i gymysgu
efo llwy fawr o flawd a llwy fawr o fenyn
meddal a'u gwneud yn beli bach efo'ch
llaw.

2 lwy fawr o berlllys (persli) fflat wedi eu
torri'n fân.

Dull

- Sychwch y darnau cyw iâr yn dda efo papur cegin (tynnwch y croen oddi ar y cig i gyd, neu eu adael – fel y gwelwch chi orau).
 - Sychwch y *lardons* hefyd.
 - Rhowch hanner y menyn mewn desgl weddol fawr a thrwm (un haearn bwrw).
 - Rhowch y popty ar 180gradd c.
 - Pan fydd y menyn wedi toddi, ffriwch y *lardons* am 5 munud neu tan y byddant wedi brownio'n ysgafn. Yna rhowch nhw heibio ar blat bach.
 - Rhowch y darnau cig i gyd i mewn i'r ddesgl a'u ffrio am 5-7 munud tan y byddant wedi brownio bob ochr.
- badell.
- Rhowch y cig a phopeth yn ôl yn y ddesgl, a hefyd y madarch, a'i fudferwi tan y bydd y cwbl wedi cynhesu drwyddo.
 - Trowch o efo llwy bren bob hyn a hyn, a'i fud-ferwi am 5 munud arall.
 - Rhowch y parsli ar ei wyneb.
 - Dim ond tatws newydd sydd eu hangen efo'r wledd hon.
- Os ydych am barti efo ffrindiau, neu i ddathlu pen-blwydd, mae'r pryd yma'n berffaith – ac yn wir yn werth y drafferth.

Os ydych am barti efo ffrindiau, neu i ddathlu pen-blwydd, mae'r pryd yma'n berffaith - ac yn wir yn werth y drafferth.



Gwirfoddoli gyda ni

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu ein helusen, felly os oes gennych unrhyw amser hamdden o ddydd Llun i ddydd Gwener, cysylltwch â ni.

Rhesymau dros wirfoddoli

- Mae gan ein gwirfoddolwyr cymhellion ei hunain am fod yn rhan o'r tîm - dyma rai o'r rhesymau pam y dylech chi gofrestru heddiw!
- Cyfle i weithio mewn tîm cyfeillgar, i wneud ffrindiau newydd a chwrdd â grŵp amrywiol o bobl
- Y cyfle i wneud cyfraniad amhrisiadwy i Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
- Yr amser i ddatblygu'ch sgiliau rhyngpersonol ac eich hyder
- Y gallu i ennill profiad gwaith gwerthfawr i'w ychwanegu ar eich CV ac i ddysgu sgiliau newydd

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i:
Weithio y neid siop elusen
Helpu gyda casgliadau
gyrrwyr gwirfoddol

Os oes gennych unrhyw amser sbâr ac mae gennych ddiddordeb cysylltwch â ni

Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
325 High Street, Bangor, Gwynedd, LL57 1YB

01248 353 604
admin@nwsb.org.uk
www.nwsb.org.uk
Twitter @nwsb1
[Facebook.com/pages/Cymdeithas-y-Deillion](https://www.facebook.com/pages/Cymdeithas-y-Deillion)

Rhif Elusen Cofrestredig: 1143368



Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd ein bore coffi ar 28ain o Fedi ar fore Sadwrn digon anwadal o ran tywydd. Er hynny daeth nifer o drigolion yr ardal draw i Ganolfan Cefnfaes a da oedd gweld pawb dros baned a sgwrs Diolch i Bronwen am ein helpu ni ac eraill. Wedi cyfnod yr haf mae'r boreau coffi yn ffordd dda o godi allan a chymdeithasu.

Anwadal iawn hefyd yw'r ffordd o ddisgrifio gwleidyddiaeth gwledydd Prydain y dyddiau hyn, ac mae hwn yn digwydd bod yn gyfnod y cynadledau. Yn Abertawe y cynhaliwyd cynhadledd Plaid Cymru eleni a bu nifer o'r etholaeth yno yn gwrando ar ein gwleidyddion. Y Gymraeg mewn addysg oedd testun araith ein A.C. Sian Gwenllian, oedd yn



gweld yr angen am ddeddfwriaeth newydd i gryfhau'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg.

Wedi dilyn cymhorthfa yng Nglasinfryn gyda Menna Baines, y cynghorydd lleol, tynnwyd sylw Hywel Williams A.S. at y diffyg gwasanaeth bws sy'n mynd yn uniongyrchol i Fangor. O ganlyniad mae'n falch o gyhoeddi bellach bod y gwasanaeth ar gael.

Ysgol Bodfeurig

Diwrnod Owain Glyndŵr
Dydd Llun, Medi 16eg, dathlwyd Diwrnod Owain Glyndŵr. Aeth pwyllgor plant y Siarter Iaith ati i gynnal gorymdaith o amgylch cae yr ysgol, canu caneuon, gwisgo coch a chwarae offerynnau.

Ymweliad Mrs Foulkes a Tomos
Braf oedd cael croesawy Mrs Foulkes a Tomos yn ôl i'r ysgol i ymweld â phlant y cyfnod Sylfaen fel rhan o'i thema 'y corff'. Cafodd y plant gyfle i holi Mrs Foulkes ynghylch sut i ofalu am fabi, gweld Tomos yn cael bath ac chael tro i fwydo Tomos. Rydym yn edrych ymlaen i weld Tomos a Mrs Foulkes eto yn fuan.

Thema'r Adran Iau
Thema'r adran iau y tymor yma yw 'O Am Fyd Rhyfeddol', gyda'r plant wedi bod yn ymchwilio i



ryfeddodau'r byd. Rhai modern, hyafol a naturiol. Ar hyn o bryd mae'r plant yn ymchwilio trychineb coedwig law yr Amason.

Themau'r Adran Babanod
Thema'r cyfnod Sylfaen tymor

yma yw 'Hapuswrydd'. Mae'r plant wedi bod yn trafod beth sydd yn eu gwneud nhw'n hapus, wedi edrych ar y corff ac ar ddathliadau hapus fel bedydd. Mae'r plant yn edrych ymlaen i brofi gwasanaeth

bedydd yn yr Eglwys yn y man.

Wythnos Iechyd a Ffitrwydd
Yn ystod wythnos Medi 20, cymerodd y plant ran mewn llawer o weithgareddau iechyd a ffitrwydd a gafodd eu cynllunio gan y cyngor iechyd a ffitrwydd. Cawsom ymweliad gan yr athletwraig paraolympaidd, Beverley Jones a bu dawnsio Zumba, coginio a blasu bwydydd iach yn ogystal â sesiwn rygbi, dysgu sut i wneud CPR a sesiwn ar ffitrwydd.

Cymru v Georgia
Roedd cyffro mawr yn yr ysgol ddydd Llun Medi 23, wrth i bawb wyllo gêm cyntaf Cymru yn Nghwpan Rygbi'r Byd. Cawsom ginio arbenig gan wyllo'r gêm ar y sgrin fawr yn y Neuadd.

Y Dyddiadur toriadau (14)

Detholiad gan Derfel Roberts

(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

Yn y bennod hon dyfynnir o hanesyn diddorol arall. Teitl y darn ydy **‘Prynhawn gyda Dr Thomas Richards’** a dywedir bod y gŵr enwog hwnnw wedi derbyn gwahoddiad i siarad mewn ysgol undydd a drefnwyd gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA).
Sonnir am y ‘dysgodron’ sef Dr Tom Richards a’r Prifathro J. Morgan Jones, y ddau o’r Brifysgol ym Mangor ac â’r hanes yn ei flaen i fanylu am gynnwys darlith Dr Richards gan ddweud bod y Dr Tom o’r farn mai Cymdeithas Hynafiaethwyr Môn oedd y gymdeithas orau o’i math yn y wlad. Roedd ei thrafodion “yn batrwm o’r hyn y dylai pethau fel hyn fod.” Canmolodd Dr Richards waith Hugh Owen, y golygydd, a soniodd am ddwy erthygl werthfawr iawn oedd i’w gweld yn nhrafodion y flwyddyn honno. Roedd un yn ymwneud â ‘Hanes Seneddol Beaumaris’ gan Mr Glyn Roberts M.A. a’r llall gan Mrs Emrys Evans M.A. ond nid yw teitl y ddarlith honno yn cael ei nodi yn yr adroddiad.
Ar ôl seibiant i de, cafwyd math o “seiat lenyddol ddifyr” gyda’r gynulleidfa yn cael holi Dr Richards ar bynciau tra gwahanol i’w gilydd, “ac yntau’n profi ei wybodaeth helaeth wrth ateb.”
‘Pwy oedd pobl Môn?’ oedd cwestiwn rhyw athro o’r Valley a’r ateb oedd eu bod yn

disgyn o gymysgedd mawr - Iberiaid, Gwyddelod a’r hen Frythoniaid. Pan oedd cenedl yn goresgyn gwlad nid oeddynt yn llwyr ddifa’r trigolion, yn hytrach ymhen amser yr oedd y gwahanol bobl yn ymgymysgu.” Fe gredid bod ymfudo wedi digwydd o’r Iwerddon bod llawer o bobl Môn â gwaed Gwyddelig ynddynt yn enwedig pobl ardal Caergybi. Dywedir hefyd bod y Sgandinafiaid wedi gadael eu hól yma yn y cyfnod pan oeddynt yn hwylio o leoedd fel Norwy i lawr heibio Gogledd Orllewin ‘Ysgotland’. Yna, dywedir mai’r bobl mwyaf diddorol o ran eu tarddiad ar yr ynys oedd pobl ardal Amlwch gan fod nifer o unigolion a theuluoedd yn parhau ag enwau Cernywaidd. Yng Nghernyw meddai Dr Tom y gwnaeth John Wesley ei waith mwyaf trwyadl ac roedd bron bawb a ddaeth o Gernyw i Amlwch yn Wesleaid.
Ar ddiwedd sgwrs Dr Tom Richards cafwyd trafodaeth agored a chyfeirio mwy o gwestiynau a sylwadau o’r llawr. Ymhlith rheiny roedd cwestiynau am y Rhufeiniaid, Bryn Celli Ddu, enw Llanfairpwll, a sychu llyn Pwllfanog ac adroddir bod cryn ddadlau ac anghytuno ymhlith aelodau o’r gynulleidfa â’i gilydd ynghylch rhai materion ond roedd y cyfan yn cael eu trafod mewn ysbryd da.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's
**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**



Garddio

Plannu bylbiau
Wrth i’r dyddiau fyrhau, rŵan ydy’r amser i blannu bylbiau’r gwanwyn. Mae’r pridd yn dal yn gynnes ac fe fydd cyfle iddyn nhw fagu gwreiddiau, ond gadewch blannu tiwlipau tan ddiwedd Tachwedd. Oergaledwch nhw cyn eu plannu. Os am eu gosod yn anffurfiol, taflwch nhw i fyny wedyn eu plannu lle maen nhw’n disgyn.

Cyffredinol
Torrwch hen dyfiant coediog i lawr at y bonyn. Bwydwech camelia, tri lliw ar ddeg (hydrangea) a rhododendron â gwrtaith arbennig i flodau sy’n hoffi pridd asid. Defnyddiwch y llawnder tymhorol o ddail a glaswellt ar gyfer eich tomen gompost.
Dewch â’r planhigion tŷ i mewn dros y gaeaf, a’u cynefino’n raddol i’r tymheredd gwahanol. Bydd angen i offer yr ardd gael eu glanhau a’u hogi cyn eu cadw dros y gaeaf. Cofiwch lanhau’r potiau hefyd. Mae ‘Jeyes Fluid’ gwan yn eu diheintio’n dda.

Creu lawnt
Rŵan yw’r amser hefyd i greu lawnt newydd, neu ei thrwsio, ei hawyru a’i sgriffio. Parhewch i dorri lawnt sefydlog sy’n dal i dyfu, ond gadewch hyd at 3” o dyfiant dros y gaeaf. Mae’n well peidio

â’i droedio, os yn bosibl.



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a’r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Hywel Williams Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
williamshy@parliament.uk

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

Newyddion

Dymunwn wellhâd buan i Glenys Roberts, Hen Barc; Leane Parry, Tanrallt; Nia Jones, Lôn Groes; a sawl un arall sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

Rhoddwyd cabanau yn maes Bleddyn er mwyn hwyluso'r gwaith o welliannau i'r tai. Ail agorwyd Lôn Bach Odro, gan hwyluso'r daith rhwng Rachub a Bethesda.

Gosodwyd cloeon ar giat y cae islaw Llwyn Bedw i geiso rhwystro camddefnydd o'r cae.

Da oedd gweld pobl yn manteisio ar y tywydd braf i hel mwyar duon, i glywed bod Esther (siop Rachub) wedi llwyddo i gael gwyliau er trafferth y cwmni teithio Thomas Cook ac i glywed bod Eryl wedi ymgartrefu yng ngharafan newydd Llwyn Bleddyn.

Cydymdeimlwn â theulu Elaine Roberts, Ffordd Llanllechid wedi salwch a marwolaeth ei mam.

Mae nifer o drigolion Llwyn Bedw'n ceisio sicrhau na fydd cerbydau'r adeiladwyr yn parcio yn Llwyn Bleddyn yn ystod y gwaith adeiladu yn Cae Rhosydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Catrin Doyle, Rachub ar ddod yn nain unwaith eto. Ar y 6ed o Awst, ganed Eidda Elidir Doyle, merch fach i Ioan a Janie Doyle a chwaer fach i Efan. Gobeithio ei bod yn setlo i fewn yn hapus i'r teulu prysur sydd erbyn hyn yn byw yn Llanrug.

CARMEL LLANLLECHID

Gwasanaeth Diolchgarwch

am y Cynhaeaf

gyda'r Plant a'r Bobol Ifanc

Dydd Sul, 20 Hydref am 5 o'r gloch

Croeso i bawb

Casgliad tuag at y Genhadaeth

Tacsi A2B

Busnes newydd lleol

Tacsi glân a ffres sydd ddim ond yn gwybod am y siwrna' fyrraf o A i B

Hefyd Teithiau i Feysydd Awyr a Phorthladdoedd

07534 473112

Gallwch gysylltu drwy "Facebook" neu Eboost: rwwllms@aol.com

Cydymdeimlad

Bu farw Mrs Helena Hughes, Hen Ysgol, ar Fedi 22 yn Ysbyty Gwynedd, yn 79 mlwydd oed. Anfown ein cydymdeimlad at Elaine, Barrie a'r hogiau, Ffordd Llanllechid; a'r teulu oll ar adeg mor drist. Bu gwasanaeth yr angladd yng Nghapel Carmel ar Hydref 3 ac yna yn yr Amlosgfa ym Mangor.

Genedigaeth

Llongyfarchidau i Brian a Gwenda Jones, Bron Arfon ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganed merch, Llio Myfanwy, i Huw Geraint a Catrin ym Mhenisarwaen.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb brynhawn Mercher Medi 11. Anfonwyd ein cofion at Glenys Hen Barc a Medi - y ddwy ddim yn dda. Cafodd Blodwen flodau a chyfarchion wedi iddi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed. Croesawyd Margaret Rees Williams yn ôl wedi iddi fod yn yr ysbyty.

Yna croesawodd y llywydd y siaradwr gwadd sef Steven Evans. Mae Steven yn gweithio i Gymdeithas y Deillion ym Mangor. Cawsom sgwrs ddifyr iawn a dangosodd eitemau oedd o gymorth i'r deillion. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 9.

Clwb Hanes Rachub

Daeth yn bryd i gychwyn ar dymor newydd o weithgareddau Clwb Hanes Rachub. Daeth pawb ynghŷd i festri Capel Carmel i ymuno mewn sesiwn o hel atgofion am ddyddiau cynnar Llais Ogwan, a hanes ei sefydlu ym 1974, - ia, - 45 mlynedd yn ôl! Llais Ogwan oedd yr ail bapur bro Cymraeg ei iaith [y 'Dinesydd' oedd y cyntaf], a'r bwriad gan y sylfaenydd Derfel Roberts oedd cyflwyno deunydd darllen Cymraeg i drigolion y fro, ac i dathlu eu llwyddiannau. Soniodd Derfel am y gweithwyr dygn oedd yn y tim ar y pryd - Ieuan Wyn, Dilwyn Pritchard, Richard Tangraig, Buckley Wyn, J.Elwyn Hughes, Gwyneth y teipydd ymysg eraill, ac na fyddai'r fenter wedi bod yn llwyddiant hebddynt. Soniodd hefyd am yr oriau o lafur a roddwyd er mwyn i bob rhifyn weld golau dydd, - y cyfan wedi ei wneud â llaw, - cywiro iaith, teipio, torri, gludo, cludo'r papur o un lle i'r llall ac wrth gwrs, ei blygu. Caiff y cyfan ei wneud gyda chyfrifiaduron erbyn hyn!

Yn dilyn cyflwyniad Derfel, cafwyd crynodeb difyr o gynnwys rhifynnau blwyddyn gyntaf Llais Ogwan, gan Dilwyn Pritchard, - newyddion fel chwalu Capel Trefflys, ffarwelio âg Ysgol Cefnfaes, diweithdra, cyffuriau, a hanes yr ymgyrch i gael iawndal i ddiodeffwyr y 'llwch'. Soniwyd am y colofnau rheolaidd e.e. 'Y Drwg yn ein Mysg' [poblogaidd iawn, yn ôl ymateb y gynulleidfa], Cornel y Plant, Cerrig Mân a.y.y.b. yn ogystal â'r sylw a roddwyd i gymeriadau lleol fel Wil Wandrin a Wil Rich. Crybwyllwyd nifer o hanesion pobl Rachub hefyd, - digwyddiadau cyffredin bywyd mewn pentref bychan. Diolch am yr holl atgofion. Diolch yn fawr, hefyd, i Dilwyn am drefnu'r cyfarfod mor ddi-ffwdan ar fyr rybudd, ac i Derfel am gytuno i gyflwyno'r hanes.

Dymuna pwyllgor ac aelodau'r Clwb gydymdeimlo â Mrs Shân Robinson, Tregarth a'r teulu yn eu profedigaeth, ac anfonwn ein cofion atynt i gyd.

Mr Wyn Roberts (Tanbwllch) fydd yn rhannu ei atgofion yn y cyfarfod nesaf - Hydref 30.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau (am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)

Hydref 20: Oedfa Ddiolchgarwch yng nghwmni Clwb Dwylo Prysur a'r Ysgol Sul.

Hydref 27: Gweinidog.

Tachwedd 3: Gweinidog (Cymun).

Tachwedd 10: Parchg. Gareth Edwards.

Tachwedd 17: Oedfa

Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30yb.

Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30.

Te Bach: Dydd Llun, 21 Hydref. 2.30 - 4.00.

Cofion cynnes at yr aelodau sy'n sâl ac yn methu dod i oedfa.

Bu un aelod yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mr. Glenys Roberts. Da deall ei bod yn well.

Ar 22 Medi fe gollodd yr eglwys aelod arall pan fu farw Mrs. Lena Hughes, Yr Hen Ysgol, yn 79 mlwydd oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd ei hangladd ar 3 Hydref yn y capel a'r amlosgfa dan arweiniad ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard a'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams. Mrs. Helen Williams oedd wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd

Atgyweirio MOT

Gwasanaethu Cerbydau

Cydbwyso Teiars

Batris

Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com

www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

UNIPART

CAR CARE CENTRE

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Datganiad blynyddol am wariant y
llwodraeth (7)
- 5 Cyrraedd at stwnsh tysten (5)
- 8 Duon i'w jamio (5)
- 9 e.e. i Sion rhoir bywyd ac anadl (7)
- 10 Annisgwyl, heb wybod am ei ddyfodiad (7)
- 11 Rhan o air (5)
- 12 Gwynt y dwyrain yn oeri rhannau o'r
ymadawedig (5,1,5)
- 16 Bron yr un fath (5)
- 18 Marmalêd (3,4)
- 20 Oherwydd ei fud loes mae ei gri yn
gwynffanus (7)
- 21 Papur bro gogledd orllewin Môn (1,4)
- 22 Tywysog Sycharth (5)
- 23 Dau dwll i gael ei wynt ato (7)

I LAW R

- 1 Yr ym yn codi ymwybyddiaeth am
heddwch ac ewyllys da (6)
- 2 I'w droedio ar y ffordd droellog i bwl yr
afon (5)
- 3 Tonnau'r môr y tu allan i adeilad y
Cynulliad yng Nghaerdydd (3,1,3)
- 4 Gweledigaeth gŵr y gôt amryliw (8,5)
- 5 Blaendal i seren ddryslud y byd pop (5)
- 6 Mae ar gae criced, yn dal llyfrau mewn
siop neu'n chwarae miwsig mewn clwb (7)
- 7 Fase'n well iddo ddod yn ôl, wedi'r un yma
(5)
- 13 Fel y frech goch o'r Almaen (7)
- 14 Lleddfu, a'i wneud yn llai poenus (7)
- 15 Rhifau o 1 i 9 (6)
- 16 Sant rhwng dau Gogarth ! (5)
- 17 Gweithiwr haearn yn ymholi (5)
- 19 Pentref ger Conwy (5)

ATEBION CROESAIR MEDI 2019

AR DRAWS 1 Llais, 3 Alp, 7 Agosrwydd,
8 Guto, 9 Dal Pen Rheswm, 10 Acennu,
13 Italig, 15 Presenoldeb, 19 Tyrd, 20 Wyneb
Hir, 21 Uda, 22 Sgïo

I LAWR 1 Llygad, 2 Inswlin, 3 Atgas, 4 Pwt a
Moi, 5 Hwre, 6 Addo Rhoi, 11 Cyplysu
12 Uchelwr, 14 A'i Debyg, 16 Eldra, 17 Ofni
18 Brifo

Y camgymeriad mwyaf y tro yma oedd fod 6 ohonoch wedi rhoi ‘Am Debyg’, ac un ‘At Debyg’ yn lle’r ateb cywir ‘A’i Debyg’ (14 i Lawr), fel yn y dywediad ‘Y fo a’i debyg’. Dau ohonoch wedi gwneud i mi chwerthin yn cynnig ‘Wyneb Tin’ yn lle ‘Wyneb Hir’ (20 Ar Draws), ac un ‘Wyneb Pig’. Aeth ‘Pwt a Moi’ yn ‘Pwt a Mei’ (4 I Lawr) gan un arall.

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol
gywir: Sian Beidas, Dulcie Roberts,
Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths,
Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Doris

1		2		3		4		5		6		7
8						9						
10								11				
	12	13						14				
												15
16				17		18				19		
20								21				
22						23						

Shaw, Bangor; Adrian Poulton, Pentir;
Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Gwen
Lloyd Evans, Bethesda; David T. Hughes,
Cyffordd Llandudno; Gwenda Roberts,
Rhosmeirch; John a Meirwen Hughes,
Abergele; Barbara Jones, Jean Hughes,
Talybont; Gill King, Mynydd Llandygai.
Llongyfarchiadau ichi oll.

Yn fuddugol y tro hwn y mae ymgais Gwen
Lloyd Evans, 4 Ystad Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DR.
Go dda chi.

Atebion erbyn 1af Tachwedd, 2019 *fan bellaf* i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12
Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 1 Tachwedd i 'Croesair Hydref'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Anrhydeddu gwasanaeth



Alwyn Jones (chwith) yn cyflwyno'r
tlws i Elwyn Jones

Mewn cyfarfod diweddar o Bwyllgor Rheoli Cynghrair Pêl-droed Ieuencid Gwyrfai, cafodd y Clybiau a'r Swyddogion gyfle i anrhydeddu gwasanaeth Elwyn Jones o Rhiwlas, a fydd yn sefyll lawr ar ôl gweithredu fel Ysgrifennydd y Gynghrair am gyfnod o ugain mlynedd.

“Bydd colled mawr am ei wasanaeth trylwyr,” meddai Alwyn Jones, Cadeirydd, “ond da yw cael adrodd nad yw yn datgysylltu ei hun yn hollol, gan ei fod am gynrychioli'r Gynghrair ar Bwyllgorau Pêl-droed Ieuencid, Cymdeithas Pêldroed Gogledd Cymru sy'n cyfarfod rhyw 4 gwaith y flwyddyn.”

Hoffai Alwyn ar rhan pawb yn y Gynghrair ddiolch o galon i Elwyn am ei waith dros y blyneddau.

Merched y Wawr

Cyfarfod Medi 10, 2019

Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf o'r tymor a braf hefyd oedd croesawu dwy aelod newydd, Beryl Riley a Jean V. Jones. Dysgwraig yw Beryl ac yn awyddus inni siarad Cymraeg â hi. Cafwyd ymddiheuriad gan Carys a diolchwyd i Linda am wneud y rhaglenni eleni eto. Pwysleisiwyd eto fod angen is-ysgrifennydd ac is-drysorydd.

Gwen oedd Llywydd y mis ac fe gyflwynodd y gŵr gwadd, sef Georgr Jones, a braf oedd ei groesawu'n ôl i'r pentref gan iddo ef ac Eirlys fyw yma am oddeutu saith mlynedd ac yma hefyd y ganwyd eu mab, Dewi. Y mae George yn ysgrifennydd Tîm Achub Mynydd Llanberis. Eglurodd fod yr haf eleni wedi bod yn brysur iawn ac ym Mis Awst cafwyd 40 o alwadau. Yn Nant Peris y mae pencadlys y tîm ac y mae 45 o wirfoddolwyr yno, yn eu plith 2

feddyg ymgynghorol.

Yn ogystal, cawsom sleidiau diddorol hefyd a diolchwyd i George am noson hynod o ddifyr ac addysgiadol.

Nia a Iona oedd yn gyfrifol am y baned a Beryl a Carol enillodd y raffl.

Rydym yn cyfarfod ar yr ail Nos Fawrth o'r mis yn y Neuadd, bydd croeso i aelodau newydd a chynaelodau.

Clwb Rhiwen

Cyfarfu'r aelodau ar 25ain o Fedi wedi seibiant dros yr haf a'r dasg gyntaf oedd llunio rhaglen ar gyfer y tymor yma. Cawsom longyfarch Frances ar ei phenblwydd diweddar yn 90 oed a hi yw'r trydydd o'r clwb i ddatlu hyn eleni. Gan i'r tri gael eu geni yn 1929 cawsom wybodaeth am ddigwyddiadau y flwyddyn honno (Lewis Valentine yn ymgeisydd cyntaf Plaid Cymru ac yn cael 609 o bleidleisiau, Megan Lloyd George yn dod yn aelod dros Ynys Môn ac Aneurin Bevan dros Glyn Ebwy. Roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Lerpwl a Caradog Prichard enillodd y Goron).

Dilys ac Ann oedd yn gyfrifol am y baned a cawsom deisen flasus hefyd. Roedd sawl un o'n haelodau yn methu â dod oherwydd anhwylder - brysiwch wella a chofion atoch.

Mae'r clwb yn cyfarfod ar 2il a'r 4 ddydd Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn y Neuadd. Dewch draw atom!

Gwasanaeth Gwobrwyo Enillwyr Medal Gee 2019

Brynhawn Sadwrn, Medi 14 yng Nghapel Bereia Newydd, Bangor cafwyd seremoni i wobrwyo athrawon a selogion yr Ysgol Sul am eu teyrngarwch a'u ffyddlondeb ac roedd nifer dda eleni yn derbyn Medal Gee. Un ohonynt oedd Ann Evans, Rhes Uchaf gynt

ond nawr o Benisarwaun. Bu'n ffyddlon iawn i Ysgol Sul. Peniel, yn mynychu ers yn ifanc iawn. Yno y bu'n bwrw ei phrentisiaeth fel organydd cyn symud ymlaen i gyfeilio yn yr oedfaon pnawn ac ar nos Sul. Bu'n athrawes yno ac ymhen amser, wedi priodi, symudodd i Gapel Bosra, Penisarwaun a mynd â'r ferch fach, Eurgain Haf, gyda hi a dod yn athrawes yno'n syth. Heddiw y mae oddeutu 18-20 yn mynychu'r ysgol gydag Anti Ann ac Anti Liz.

Yn y gynulleidfa roedd Eileen Jones, gynt o Bro Rhiwen ac un arall o Gapel Peniel. Roedd hithau'n selog yn yr Ysgol Sul a, ddwy flynedd yn ôl, derbyniodd hithau y Fedal am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul yn Rhostrehwfa, Ynys Môn. Braf yw gwybod fod nifer helaeth o blant Peniel yn weithgar yn eu capeli a'u cymunedau newydd. Ffrind ysgol Ann oedd Meirwen, Hirdir Ganol, Mynydd Llandegai ac fe dderbyniodd hithau a'i gŵr John Eric y fedal y prynhawn hwnnw hefyd.

Un arall a enillodd y Fedal Gee rai blynyddodd yn ôl bellach oedd y ddiweddar Mrs Gracie Thomas, Capel Pisgah. Oes gan unrhyw un fwy o wybodaeth am hyn? Os oes, cysylltwch os gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Linda a Melfyn Jones, Erw Wen ar enedigaeth wyres fach arall, Telyn, merch i Gwyn a Bronwyn. Yn Vancouver y maent yn byw ond yn dod adref dros y Nadolig. Ein dymuniadau i chi fel teulu. Siŵr fod Nel a Tomos yn edrych ymlaen i weld eu cyfneither fach!

Cydymdeimlo

Yn 54 mlwydd oed bu farw Helen, merch yng nghyfraith Gwyneth a'r diweddar Eric Griffith, brawd Dilys Parry, Bryn Tirion. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar noson ddigon oer cawsom groeso cynnes iawn gan ein llywydd, Nicola Hughes, i gyfarfod Hydref o'r sefydliad. Yr oedd ychydig o ymddiheuriadau, ond serch hynny yr oedd criw da o ferched yn bresennol. Cydymdeimlwyd â theulu Megan Collister Jones, a fu'n aelod ffyddlon iawn yn y sefydliad ers llawer o flynyddoedd. Cofion dwys at y teulu i gyd.

Llongyfarchwyd tair o'r aelodau a fu'n llwyddiannus yn y Sioe Grefft a Chynnyrch i sefydliadau Eryri yng Nghanolfan Llanberis ar 21 Medi. Cafodd Jean Hughes 1af am ei chacen, Gwyneth Morris 1af gyda'i chynnyrch, yn ogystal a Nia

Williams yn cael 3ydd gyda'r gwau. Da iawn ferched - edrych ymlaen at y sioe nesaf rŵan !!

Darllenwyd cofnodion mis Medi gan Gwyneth, ac fe aeth Nicola ymlaen i ddarllen y llythyr misol, a thrafodwyd llawer o'r cynnwys cyn iddi estyn croeso i'r wraig wadd am y noson, sef Gwenan Ellis Jones.

Athrawes Gymraeg yn wreiddiol oedd Gwenan, ond bellach yn gweithio gydag ysgolion lleol i hybu'r iaith Gymraeg.

Yr oedd yn noson ddiddorol iawn a diolchwyd i Gwenan gan Alison, ac i'r merched am y baned. Rhoddwyd y wobrw lwcus gan Nicola a'r enillydd oedd Jean.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlo
Mae dau deulu wedi profi profedigaeth yn ddiweddar, sef teulu'r diweddar Ithel ffrancon Owen, Rhes Jâms. Bu farw Ithel ym Mryn Seiont Newydd yn 95 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll. Yr un yw'n cydymdeimlad â theulu Gaynor Williams, 2 Gernant, wedi iddi farw yn ei chartref a hynny'n bur annisgwyl. Pob cydymdeimlad â'r teulu oll.

Colli Vernon
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o gymwynaswyr mawr y fro, Mr Vernon Owen, Abercaseg, a fu farw yn dawel yn ei gartref â'i deulu o'i gwmpas. Bydd colled enfawr ar ei ôl. Pob cydymdeimlad â chi fel teulu.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



**18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB**

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Ysgol Llanllechid

Gwellhad Buan
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Ms Lliwen am wellhad llwyr a buan. Mae pawb yn cofio atoch ac yma yn gefn i chi.
Yn yr un modd, anfonwn ein cofion cynhesaf at Ms Leanne, sydd yn gwella ar ôl derbyn trinaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae pawb yn Ysgol Llanllechid â hiraeth ar eich hôl! Brysiwch wella, Ms Leanne! Yr un yw ein dymuniadau i Mr Gavin, sy'n gweithio yn y gegin. Gobeithio eich bod yn teimo'n llawer gwell erbyn hyn.

Diolch
Diolchwn i Ms Anna am ei gwaith arbennig yn Ysgol Llanllechid dros y blynyddoedd diwethaf ac am ei thalent unigryw ym maes Celf. Mae Ms Anna wedi penderfynu symud ymlaen i borfeydd brasach byd busnes a dymuniadau gorau i chi gyda'r fenter hon. Cofiwch ymweld â'r wefan - annapritchard.co.uk. er mwyn i chi gael gweld y celfyddyd. Mae'r gwaith werth ei weld ac yn gwerthu fel slecs, fel y gwelwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. A'r hyn sy'n braf yw mai nodau clust defaid yr ardal sydd wedi ysbrydoli Anna i greu! Diolch Anna am eich hynawsedd a'ch gwaith caled pob amser. Rydym yn gwybod na fyddwch yn ddiarth, ac y byddwch yn galw heibio o dro i dro i'n cynorthwyo yn ein creadigrwydd.

Ysgol Arweiniol Greadigol
Bellach mae ein wal Meddylfryd o Dwf wedi ei chwblhau a diolch i Mrs Anwen Burgess am gydweithio mor egniol gyda'r ysgol ar y cynllun hwn. Mae'r wal yn werth ei gweld ac wedi newid y gofod tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn syfrdanol. Mae pob disgybl yn yr adran Cyfnod Sylfaen wedi creu llun ar gyfer y murlun ac mae'r sloganau sydd arno yn rhai y byddwn yn cario gya ni! Diolch i Mrs Wilson am arwain y cynllun a diolch hefyd i Mr Garek Jackson am ddod draw i Ysgol Llanllechid i gymryd rhan yn y bwrllwm!

Cyngor Ysgol a'r Cyfeillion
Diolch i gyfeillion Ysgol Llanllechid am brynu rhoddion gwerthfawr a defnyddiol i bob dosbarth, sef adnoddau ar gyfer amseroedd chwarae er mwyn sicrhau fod pawb yn cadw'n iach a heini! Hefyd, diolchir am y llyfrau a'r cyfraniad o £1,000 i'w prynu. Llond trol o ddiolch!!

Ffair Ysgol
Roedd ein Ffair Hydref flynyddol eleni yn llwyddiant ysgubol, ac er gwaethaf y tywydd anffafriol, daethoch yn eich lluoedd, yn rieni a chyfeillion i'n cefnogi, a gwerthfawrogi hynny yn fawr.
Diolch i bawb a wnaeth gynorthwyo mewn unrhyw ffordd o flaen llaw ac ar y diwrnod; i chi fu'n helpu ar y stondinau, wrth y drws, trefnu'r gemau, trin gwalltau, gwneud candi fflos, peintio wynebau a llawer mwy - diolch o waelod calon. Diolch o galon i Anti Gillian a'i thîm am yr holl waith di-flino yn y gegin. Diolch i bawb!

Diolch o galon!
Diolch o galon i Mari Watcyn a'i ffrindiau am y geriau teimladwy a charedig: Am gwmniaeth hiraethaf - llawenydd Llanllechid drysoraf
A hedd bro, a'r dyddiau braf
Y cyfan, mi a'u cofaf.

Ysgol Llanllechid ar y Newyddion ar S4C
Ar Fedi 14, roedd Ysgol Llanllechid ar y Newyddion! Cymorth cyntaf oedd y pwnc dan sylw, a hynny ar ddiwrnod cenedlaethol Cymorth Cyntaf. Roeddem yn ffodus eto eleni o gael cwmni Mr Dafydd Beech o'r Groes Goch i'n harwain. Cafwyd diwrnod byrlymus a digon o gyfle i ddysgu sgiliau pwysig bywyd. Diolch o galon, Mr Beech!



Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Medi, aeth nifer o aelodau'r gangen i Fangor i helpu gydag is-etholiad Ward Deiniol – yr ymgeisydd Llafur oedd yn fuddugol.

Yr wythnos ganlynol, cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen. Adroddwyd bod cynigion y gangen i Blaid Lafur Arfon ynglyn â thrwyddedau teledu am ddim a chefnau metal i rewgelloedd / oergelloedd i leihau risgiau tân wedi cael eu cymeradwyo a'u hanfon ymlaen. Cafwyd adrodiadau am Lywodraeth Cymru (e.e. nifer o lefydd ar gyfer hyfforddi meddygon teulu i gynyddu 18% a chynllun i gynyddu'r rhybudd gadael i denantiaid o 2 fis i 6 mis), Cyngor Gwynedd (e.e. y cyngor yn dechrau adeiladu tai eto am fod dwy fil o deuluoedd ar y rhestr aros a gorwariant Storiol yn £70 000) a Chyngor Bethesda (e.e. goryrru yn Stryd John a'r gost uchel o ddarparu llawr ar gyfer cae chwarae). Anfonwyd dau gynnig ymlaen i Blaid Lafur Arfon a thrafodwyd parcio am ddim adeg Y Nadolig.

Yn ddiweddarach yn y mis cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon, yn bennaf i wrando ar araith am gynhesu byd-eang (gyda chyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn) ac i baratoi am gynhadledd Prydain.

Tua diwedd y mis, cynhaliwyd y daith gerdded flynyddol o'r Ganolfan Feddygol i gaffi Moel Y Ci ac yn ôl, gan godi swm parchus o arian.

Caerhun a Glasinfryn

Clwb Perfformio i gantorion y fro

Sefydlwyd clwb newydd yng Nghanolfan Glasinfryn yn ddiweddar gan Marian Bryfdir o Bro Eryri, Waen Wen.

Pwrpas y fenter newydd yw i roi cyfle (a'r hyder) i gantorion o bob oed a safon i ymarfer mewn awyrgylch anffurfiol. Bydd y clwb yn cyfarfod unwaith y mis, ceir mwy o fanylion gan Marian, rhif ffôn : 01248 361702.

Hefyd nos Wener 15 Tachwedd am 7.30yh bydd perfformiad gan y cwmni 'Pocket Opera – Opera'n y Boded' o opera un-actol gan Pergolesi. Bydd y prif ran yn cael ei gymeryd gan y bariton o Amlwch, Keifer Jones, sydd newydd gael llwyddiant mawr yn canu rhan Don Giovanni ar daith ar hyd a lled Cymru gyda cwmni 'Opera Cymru'. Mae Marian a Keifer yn adnabyddus hefyd am eu gweithdai canu yn hyfforddi technegau lleisiol i gantorion o bob math.

Cylch Glasinfryn

Daethom at ein gilydd i'r Cylch ar ôl toriad yr Hâf ar nor Fercher 11 Medi. Croesawyd ni gan Ann Illsley a braf oedd croesawu aelodau newydd atom, ond trist clywed fod Christina yn ymddeol fel Ficer Cynothwyol ym Mro Ogwen ac yn dychwelyd i'r Iwerddon. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Dr Shaun Russell oedd y gŵr gwadd. "Y Natur o Newid" oedd ei bwnc y tro yma, ac

mae'n wir fod y tymhorau yn newid. Mae llawer o ffermwyr a garddwyr yn cadw cofnodion neu ddyddiadur o weithgareddau yn ymwneud a'u gwaith ac felly diddorol dros ben oedd stori Dr Russell a ddaeth o hyd i hen ddyddiadur garddio tra ar ei wyliau yn Nyfnaint gan ddyn o'r enw Lionel Bennett. Mewn hen siop lyfrau oedd y dyddiadur yn llawn nodiadau a chofnodion am flodau, adar, y tir, yr hinsawdd a.y.y.b. Cawsom olwg ar yr hen ddyddiadur lle roedd popeth o ddiddordeb wedi ei ysgrifennu yn dwt a threfnus. Tybed oes gan rhywun hen lyfr fel hyn yng nghefn cwpwrdd fuasai'n ddiddorol i'w ddarllen?

Cafwyd paned wedi ei threfnu gan Marian ac Elizabeth. Byddwn yn cyfarfod mis nesaf am 6yh i gael parti bach a ffarwelio â Christina. Ar 13 Tachwedd, daw Norman Evans o Niwbwrch Ynys Môn atom i sgwrsio am "Draddodiadau'r Nadolig", y cyfarfod i ddechrau am 7yh – dewch yn llw!

Bingo bach

Daeth criw reit dda i'r Bingo a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 27 Medi er budd Cleifon Afiechyd Crohn's a Colitis yn Ysbyty Gwynedd. Gwnaed elw o £170. Diolch o galon i bawb a gyfranodd yn hael tuag at y noson. Bydd y Bingo Bach nesaf ar nos Wener, 1 Tachwedd, ac yna y Bingo Nadolig ar 13 Rhagfyr. Y ddau at achosion lleol. Dewch draw, mae hwyl i gael!

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 298763

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Diwrnod yr Afal

Mae'r coed ffrwythau wedi dechrau'n fuan eleni i bwysu dan eu llwyth blasus. Mae'r eirin wedi cael eu hel ers tro, rhai o'r gellyg wedi gorffen hefyd, a llawer o afalau ar y coed. Efallai eich bod wedi sylwi bod y coed cyll yn drwm o gnau eleni hefyd? Rŵan yw'r amser i feddwl beth i'w wneud efo'r holl afalau!

Eleni eto, bydd Egin Ogwen yn cynnal Diwrnod yr Afal yn Llys Dafydd (dydd Sul 27 Hydref 2019, rhwng 11 a 4), a'r prif weithgaredd fydd gwasgu eich afalau (a gellyg) yn sudd i'w gadw at y gaeaf. Y tro

hwn, byddai'n braf pe gallech gyfrannu at noddï coed ffrwythau i'w hychwanegu at ein perllan gymunedol, un ai yn Llys Dafydd, neu ym Mhantdreiniog, neu ar safleoedd eraill ar hyd y pentref. Mae perllannau yn llefydd sy'n ysbrydoli – maent yn rhoi bwyd a chartref i fywyd gwyllt, a gallwch weld y tymhorau'n troi o'r blodau hardd yn y gwanwyn i'r ffrwythau yn yr hydref. Peth arbennig yw cynhaeafu bwyd sy'n tyfu ar eich stepen drws!

Hoffem hefyd flasu a dathlu'r amrywiaeth o deisennau afal sydd ar gael. Dewch â'ch hoff deisen afal (a'r rysâit hefyd!), a chawn wleda ar gacennau bach a mawr, rhai melyn

a sawrus, a'u cymharu, ac efallai goroni un! Felly, os oes gennych chi afalau ac yn methu eu bwyta nhw yn ddigon cyflym, dewch â nhw mewn bag neu bwced, ac efo'n gilydd gwnawn sudd arbennig i chi! Os oes gennych chi lawer iawn - dyweder mwy na llond 3 bag neu bwced, bydd modd trefnu i'r Felin Falau deithiol ddod atoch chi a gwasgu yn eich cartref / gardd / garej / ysgol (am ffi fach). Bwriadwn drefnu digwyddiadau eraill o gwmpas bwyd lleol a rhannu ryseitiau ac arferion tyfu. Os oes gennych chi awydd cymryd rhan, neu isio gwybod mwy, cysylltwch â Judith ar 602672 neu 07967 115508.

Dychwelyd Plac

Y mis diwethaf, derbyniais e-bost gan Rhian Wood, o Rhoscefnhir, Ynys Môn, yn gofyn am gymorth i ddarganfod teulu John Elias Roberts a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ym meddiant Rhian mae plac a dderbyniodd mam John ar ôl ei farwolaeth, (sef y Dead Man’s Penny, neu y Death Penny fel y’i gelwid) er cof amdano, a’i aberth tros ei wlad. Nid yw Rhian yn gwybod sut mae’r plac wedi dod i’w meddiant, ond roedd yn tybio bod ei thaid wedi derbyn y plac, rhyw fodd neu’i gilydd, gan deulu John fflynyddoedd maith yn ôl, a bod teulu Rhian wedi gofalu am y plac ers hynny. Mae ei hewythr, Dewi Wyn Williams, wedi gwneud ychydig o ymchwil i hanes John Elias Roberts, ond heb gael fawr o lwc wrth geisio darganfod perthnasau iddo. Bwriad Rhian yw dychwelyd y plac i’r teulu gan nad oes


cysylltiad teuluol rhyngddi hi a theulu John. Dyma lun o John, a’r Plac a dderbyniodd ei fam gan y llywodraeth.

Mae Rhian wedi anfon ychydig o hanes John ataf hefyd. Hanes a ymddangosodd yn y Genedl Gymreig, 27 Mehefin 1916.

“Darlun yw yr uchod o Corporal John Elias Roberts, (984), D. Company, 6th Battalion, 2nd Infantry Brigade, 1st Australian Division, mab Mrs. Grace Roberts a’r diweddar Mr. Edward John Roberts, cigydd, 33 High Street, Bethesda. Yr oedd ar goll yn “Anzac Landing” Dardanelles, er Ebrill 25ain, 1915, sef ychydig ddyddiau ar ôl glaniad ei gatrwd. Yr oedd wedi ymfudo i Awstralia oddeutu pum mlynedd yn ôl, ac yn dal swydd o gyfrifoldeb ym Melbourne. Ymunodd ar doriad allan y rhyfel â’r fyddin Awstralaidd gyntaf anfonwyd i’r Aipht. Bu yn yr Aipht am oddeutu pedwar mis cyn symud i’r Dardanelles i ymosod ar y Twrc. Y llythyr diweddaf a dderbyniwyd oddi wrtho oedd o Lemnos, wedi ei ysgrifenu ar fwrdd yr ager long ar ei ffordd i’r Dardanelles. Rhyw bythefnos yn ôl derbyniodd ei fam weddw y newydd trist oddiwrth y Swyddfa Ryfel ei fod wedi ei ladd. Yr oedd yn 25 mlwydd oed, ac yn un o’r bechgyn mwyaf siriol a hoffus gan bawb a’i hadwaenai. Bu yn was gwasanaethu pan yn fachgen, gyda Mr. W.J. Parry. Coetmor Yard, ac yn ddiweddarach bu yn cadw busnes ei hun fel cigydd yn y Gerlan. Yr oedd yn adnabyddus



iawn fel peldroediwr hefyd, yn enwedig gyda’r hen ‘Wednesdays’ enwog yr adeg hono. Yn ddiamheuol yr oedd yn gymeriad gloew neilltuol, ac yn hynod gymeradwy ym mhob cylch. Bu’n hynod ofalus o’i rieni ac yn gymwysgar i bawb. Ymwelwyd â’i fam yn Bethesda gan ddau o’i gymdeithion yn y fyddin Awstralaidd, ac yr oedd yn amlwg iawn eu bod yn teimlo colled bersonol ar ôl John - yr oedd yn fachgen ieuanc mor eithriadol fawr ei galon a’i gydymdeimlad. Yn sicr, nid oes le i ofni dweud gormod am ei gymeriad dilychwin. Ymddangosodd darlun ohono yn y “Genedl Gymreig” fwyddyn yn ôl, gyda pharti o Gymry o fyddin Awstralia a New Zealand, yn yr Aifft. Gwelir ef yn eistedd ar ddeheulaw Mr. Bryan. Yr oedd y darlun wedi ei dynnu wrth odre y Sphinx, ar Ddydd Gwyl Dewi, 1915. Croniclwyd yr hanes gan Mr. Robert Bryan, Cairo, yr hwn, gyda Mr. Davies, oedd yn y parti. Cydymdeimlir yn fawr iawn â’r fam weddw a’r perthynasau oll yn eu galar dwfn”. Os ydych â chysylltiad teuluol â’r bachgen yma a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn gallu rhoi mwy o wybodaeth am eich cysylltiad â John Elias Roberts, i Rhian, yna anfonwch air neu cysylltwch â mi ar y ffôn. Andre Lomozik 01248 602 117 neu andrelomozik29@btinternet.com



Marchnad Ogwen

Mae croeso cynnes i chi unwaith eto i ymuno â ni ym Marchnadoedd Tachwedd - ia, Marchnadoedd! Mae’r arferiad o gael dwy Farchnad ym mis Tachwedd wedi hen ennill ei blwyf. Mae’r gyntaf fel arfer ar yr ail Sadwrn - sef y 9fed a’r llall nos Fercher, Tachwedd 20fed. Bydd y Boncathod yn ein diddanu yn y Farchnad Nos. Dyma gyfle i chi ddechrau eich siopa Dolig!

Mae Marchnad Ogwen yn hapus iawn i gefnogi dysgwyr yr ardal. Yn wir, mae nifer o’n stondinwyr wedi dysgu Cymraeg i safon uchel - a diolch iddynt. Os ydych yn dysgu, neu yn adnabod rhywun sydd, mae cyfle i ymarfer yr iaith yng nghaffi Neuadd Ogwen yn ystod pob Marchnad, neu wrth gwrs gyda’n stondinwyr wrth siopa. Mae Marchnad Ogwen angen mwy o stondinau bwyd. (Dim mwy o stondinau crefft ar hyn o bryd). Dyma’r angen. Bara, cacennau di-glwten, caws buwch, caws gafr, pastai sawrus a melys, coffi, diodydd, a sosus. Cysylltwch â’r ysgrifennydd os y gallwch helpu gyda’r angen, os gwelwch yn dda.

Clwb Hanes Rachub sydd ar ein Stondin Elusen y tro nesaf. Mae’r Clwb wedi cyhoeddi llyfr gyda lluniau o ardal Rachub a bydd ar werth ar y stondin. Anrheg Nadolig delfrydol i rai o drigolion yr ardal.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar Facebook.

Stondin y mis Cypcêcs Lois

O bryd i’w gilydd, mae pawb yn haeddu cael eu tretio i ddanteithion, a dyma gyfle! Mae Lois yn creu cacennau bach - nid yn unig yn edrych yn hyfryd, ond yn sicr yn blasu’r un mor fendigedig.

Athrawes yw Lois wrth ei gwaith bob dydd, ond mae wrth ei bodd yn gwneud cacennau. Mae galw am ei chynnyrch at wahanol amgylchiadau a dathliadau megis partïon, priodasau ac yn y blaen.

Mae Lois yn hoffi arbrofi yn gyson gyda gwahanol flasau, megis siocled, mint, oren, fanila, mafon, siocled gwyn a Ferrero Rocher.

Felly, Stondin Cypcêcs Lois amdani a mwynhau cacan (neu ddwy)!



Lois a’i mam, Helen, wrth eu gwaith.

Cystadleuaeth Garlleg 2019

Llwyddiannus iawn eto eleni oedd y gystadleuaeth a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Douglas ym mis Awst. Gwnaed elw o £300.00 tuag at waith y 'Children's Liver Disease Foundation', achos sydd yn agos at galon Mark Gray, enillydd y gystadleuaeth, gan fod ei feibion, Jac a Cai, yn ffrindiau mawr efo Morgan Hughes, 13 oed, o Dregarth, sydd wedi cael trawsblaniad iau am yr ail waith yn ddiweddar. Dymunwn yn dda i Morgan, gan ddiolch i'r staff meddygol a ofalodd amdano, a hefyd, wrth gwrs, i'r sawl a roddodd yr iau! Diolch yn fawr iawn i noddwyr y gystadleuaeth, sef Jon Greenough o



Cyflwyno'r elw i Morgan, yng nghwmni Christine, Mark, Jac, Jacob a Cai.

Greenough Roofing am ei rodd ariannol hael, ac i Andrew Carson o Northern Welsh Quarries am gyfrannu'r tlws llechen i'r enillydd. Diolch hefyd i'r cogydd, Chris Bailey-Hughes, am baratoi cawl blasus cennin a garlleg ar gyfer ei werthu cyn diwedd y noson, ac i Hogia'r Bone am yr adloniant. Pob bendith i'r briodasferch, Nesta a landiodd gyda'i chriw, a phawb yn ymuno yn y canu brwdfrydig.



Myfanwy yn cyflwyno'r tlws i'r enillydd, Mark Gray.

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

 **600723**
Ffacs: 605068

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Cofnod Enwau Caeau Dyffryn Ogwen

Mae mwyafrif darllenwyr Llais Ogwen yn cofio y bore Sadwrn hynod llwyddiannus ym mis Chwefror 2018 i lansio'r prosiect i gofnodi enwau brodorol ein hardal. Cofnodwyd y bore hwnnw enwau caeau, pyllau'r afon, enwau chwareli, safleoedd diwydiannol, strydoedd, tai, ffermydd, tyddynnod a murddunnod coll, yn ogystal ag enwau hynod y creigiau, pantiau a chribau yn nhirwedd mynydd-dir ein hardal. Y cam nesaf oedd ceisio llenwi rhai o'r bylchau a oedd yn y cofnod, ac yn fwyaf arbennig canolbwyntio ar enwau cyfredol y caeau. Mae'r rhan hwn o'r prosiect bellach wedi dod i'w derfyn ac ar y cyfan gellir nodi iddo fod yn weddol llwyddiannus. Mae enwau oddeutu 1,089 o gaeau bellach wedi eu cofnodi ar gofrestr genedlaethol Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac mae'n gofnod sy'n diogelu ac yn darlunio treftadaeth bresennol ein hardal. Wrth gwrs, mae bylchau yn aros i'w llenwi, megis yn ardal Hirdir, Coed y Parc a Mynydd Llandygái, a byddai'n wych gallu derbyn enwau o'r ardaloedd hyn, yn ogystal ag unrhyw ardal arall yn y Dyffryn, gan ddarllenwyr y *Llais* yn ystod y misoedd nesaf pan yn gyfleus. Cafwyd grant ariannol gan y Gymdeithas i bwrcasu mapiau ar

gyfer cofnodi'r enwau, a mawr yw ein diolch i Dr Rhian Parry, Ifor Williams ac aelodau lleol y Gymdeithas am eu cefnogaeth i'r prosiect. Ar yr olwg gyntaf nid oes dim yn anghyffredin yn y cofnod a gasglwyd - mae'r pwyslais ar enwau caeau lleoliad, megis 'Cae Tan Beudy' neu 'Cae Pella' er enghraifft, neu ar enwau sy'n pwysleisio diben y cae, megis 'Buarth yr Wyn' neu 'Gweirglodd'. Gellir beirniadu'r cofnod o fod yn ailadroddus ac arwynebol, ond byddai hynny'n gamgymeriad dybryd. Yn y casgliad mae rhai enwau dieithr sy'n cofnodi hen drefn o amaethu, megis 'Cae Pedair Pladur' neu 'Lleiniau' tra bod rhai caeau eraill sydd heb newid eu henwau ers y ddeunawfed ganrif megis 'Bryn Llwm' a 'Cae Tŷ'r Ffeliwr' ym Mryn Eithin neu 'Cae'r Dentur' yn y Pandy yn Nhregarth. Mae'n eithaf sicr y canfyddir llawer mwy o enwau hynafol pan ddehonglir y data yn fwy trwyadl, a bryd hynny bydd pwyslais arbennig ar enwau caeau Pentir sydd yn cyfeirio'n benodol at gysylltiad y porthmyn gyda'r ardal yn ystod y ddeunawfed ganrif. Ac mae un perl o enw sydd yn cysylltu yn uniongyrchol gydag amgylchiad a ddigwyddodd ym mis Mai 1230, sef cyfnod teyrnasiad Llywelyn Fawr

yng Nghymru. Y nod yn awr yw cynnal sesiwn tebyg i'r un a gynhaliwyd yn wreiddiol yn 2018 i gloriannu'r holl brosiect. Rhydd trefniant o'r fath gyfle i ddiolch i'r holl gofnodwyr gwirfoddol a gymerodd ran yn y gorchwyl o gasglu'r enwau, ac yn fwyaf arbennig byddai'n gyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad fel ardal i holl ffermwyr y fro a fu mor gydweithredol a pharod yn cyfrannu o'u hamser a'u gwybodaeth. Y bwriad yw trefnu'r cyfarfod ar ddydd Sadwrn yn fuan yn y flwyddyn newydd drwy gydweithrediad gyda Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, a chaiff y manylion eu hysbysu'n llawn yn y *Llais* ac ar y gwefannau cymdeithasol. Cafwyd enghraifft ryfeddol o Lanllechid yn ddiweddar pa mor frau yw rhai o enwau mwyafrif cyffredin ein hardal. Yn Lanllechid mae'r efail, lle y treuliodd Ifan Roberts ei oes yn perffeithio ei grefft, bellach wedi ei droi'n dŷ, ac yn y broses rhoddwyd enw newydd i'r adeilad - Yr Efail Swynol - gyda'r cyfieithiad Saesneg The Enchanted Forge. Y fath anfadwaith diangen - bydded i'r enw syml, sef Yr Efail, aros ac na fydd y fersiwn Saesneg yn disodli'r enw gwreiddiol Cymraeg ar lafar gwlad.